

Strategaeth Ailgylchu Caerdydd 2022-2025: Glanach a Gwyrddach

FERSIWN DERFYNOL



Tabl Cynnwys

Rhagair.....	4
Crynodeb Gweithredol	6
1. Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu.....	7
2. Y Cyd-destun Cenedlaethol	8
2.1 Sbardunau Deddfwriaethol	8
2.2 Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Economi Gylchol a Mwy nag Ailgylchu.....	9
2.3 Y Newid yn yr Hinsawdd.....	10
3. Cyd-destun Lleol	11
3.1 Y Ddarpariaeth Bresennol.....	11
3.2 Perfformiad Presennol a Chymariaethau	12
3.3 Cyflawniadau Hyd Yma.....	14
3.4 Heriau.....	15
Fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth	16
Newidynnau Cymdeithasol-ddemograffig	16
Gwastraff Masnach.....	17
Twf Tai a Phoblogaeth	17
4. Cyflawni Nodau ac Amcanion y Strategaeth	20
4.1 Gwella Ansawdd Deunyddiau	20
Cynllun Gweithredu ar gyfer Ailgylchu Sych	20
Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwastraff Gardd i'w Gompostio	22
4.2 Cynyddu Cyfraddau Ailgylchu	22
Gwastraff Cartref.....	25
Gwastraff Masnach.....	25
Ysgolion	26
Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau)	26
Gwastraff Arall.....	27
4.3 Cynyddu cyfleoedd i gymunedau a thrigolion ailgylchu.....	27
4.4 Defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ddatblygu camau gweithredu wedi'u targedu	28
4.5 Lleihau plastigau untro.....	29
4.6 Annog atal, ailddefnyddio ac atgyweirio deunyddiau.....	30
4.7 Cyfrannu tuag at ddatblygu economi gylchol yng Nghymru	31
4.8 Cynllun Gweithredu a Dyddiadau Allweddol.....	32
5. Gweithio gyda Rhanddeiliaid i Wireddu'r Strategaeth	33
5.1 Cydweithio.....	33
5.2 Ymgysylltu â'r Gymuned.....	33
5.3 Strategaethau Newid Ymddygiad	34

6.	Monitro, Mesur ac Adolygu	35
6.1	Mesur ac Adolygu	35
6.2	Adolygu, Monitro a Mesur ar ôl Newid Gwasanaethau	35
6.3	Dangosyddion Perfformiad Allweddol	35
	Atodiadau	36

Rhagair



Councillor Caro Wild
Climate Change

Mae'n glir, yn ôl y wyddoniaeth, y byddwn yn wynebu pwynt di-droi'n-ôl a chatastroffig cyn bo hir o ran y newid yn yr hinsawdd, oni bai ein bod yn cymryd camau llym nawr. Yn amlwg, mewn argyfwng, nid yw dull busnes-fel-arfer yn ddigonol mwyach ac ni allwn ddianc rhag y ffaith bod Caerdydd, fel dinas, yn allyrru mwy na'i chyfran deg o garbon.

Ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn y swm o wastraff rydyn ni'n ei gynhyrchu. Dyma, efallai, yr enghraifft fwyaf amlwg o'n hól troed hinsawdd a bydd rhoi hwb i ailgylchu yn gwneud cyfraniad mawr i'r blaned gan ei fod yn gwarchod adnoddau naturiol, yn lleihau'r galw am ddeunydd crai, yn arbed ynni a thorri allyriadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd bydd angen arweiniad beiddgar gan y Llywodraeth ar bob lefel, arloesedd a newid sylweddol mewn ymddygiad ar draws y sector preifat ac, yn hanfodol, newidiadau bach ond pwysig o ran sut rydyn ni'n byw ein bywydau.

Gallwn ymfalchïo yn y ffaith bod Cymru'n chwarae rhan arweiniol wrth ddylunio a gweithredu rhai o'r strategaethau ailgylchu a gwastraff mwyaf cynaliadwy yn y byd. Ar hyn o bryd ni yw'r drydedd genedl orau ar gyfer ailgylchu ledled y byd ac mae Caerdydd yn perfformio'n dda mewn perthynas â dinasoedd craidd eraill y DU. Ond rydyn ni'n cydnabod ein bod ni ar ei hól hi o ran ein perfformiad ailgylchu o gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Mae heriau mawr y mae'n rhaid i ni eu cydnabod a mynd i'r afael â nhw os ydym am wella perfformiad ailgylchu Caerdydd.

- Mae faint o wastraff rydyn ni'n ei gynhyrchu yn cynyddu.
- Nid ydym yn ailgylchu cymaint ag y gallwn. Gallai 70% o eitemau y tu mewn i'n gwastraff cyffredinol gael eu hailgylchu, naill ai drwy gasgliadau wrth ymyl y ffordd neu yng nghanolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Yn hytrach, mae'n cael ei anfon i'r llosgydd.
- Nid ydym yn ailgylchu'n gywir. Mae cynnwys eitemau na ellir eu hailgylchu, fel bwyd a chewynnau, yn ein bagiau gwyrdd yn golygu bod rhaid anfon 30% o'n hailgylchu i'r llosgydd.

Mae'r dull hwn yn anghynaladwy. Mae'n ddrwg i'r amgylchedd ac mae'n ddrwg i bwrs y wlad. Yn syml, ni allwn barhau i gasglu gwastraff sy'n cael ei gyflwyno'n anghywir ar stepen drws pawb, ei drefnu neu ei losgi.

Mae ffordd lawer mwy cynaliadwy o reoli ein gwastraff, sy'n lleihau ein hól troed carbon yn sylweddol ac yn parchu adnoddau gwerthfawr y ddaear. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r dull hwnnw.

Rhaid i ni leihau faint rydyn ni'n ei ddefnyddio, a'i aildefnyddio lle bynnag y gallwn ni. Mae hyn yn golygu gwahanu ein hailgylchu fel y gellir ei ail-bwrpasu a datblygu economi gylchol lle rydym yn rheoli gwastraff yn gywir fel adnodd gwerthfawr.

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad ac ymarferion ymgysylltu helaeth â thrigolion ar sut beth y gallai'r dull newydd fod, a chynnal cynlluniau peilot mewn gwahanol rannau o'r ddinas. Rydym yn gwybod bod cefnogaeth i wneud y newidiadau hyn, ond rydym yn gwerthfawrogi na fydd y newidiadau hyn bob amser yn hawdd. Yn anaml y mae gwneud y peth iawn yn hawdd.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r hyn y gallwn ei wneud, gyda'n gilydd, i:

1. Leihau ein hól troed carbon a helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
2. Gwneud gwell defnydd o ddeunyddiau a chreu economi gylchol a fydd yn darparu mwy o swyddi ac economi fwy cynaliadwy;
3. Helpu i wneud ein strydoedd yn lanach trwy gyflwyno gwastraff yn gywir fel y gellir ei gasglu'n gyflym ac yn effeithiol.

Wrth wraidd y newidiadau hyn fydd ein gweithlu gwych sy'n gweithio'n ddiflino bob dydd, drwy gydol gaeafau rhewllyd a hafau crasboeth, i lanhau ein dinas. Fel rhan o'r strategaeth hon, byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi staff a chreu'r amgylchedd gwaith cywir.

Mae'r strategaeth hon yn nodi'r newidiadau cadarnhaol sydd eu hangen i wneud Caerdydd yn Ddinas Gryfach, Decach a Gwyrddach.

Mae angen cefnogaeth pawb arnom.

Crynodeb Gweithredol

Mae Caerdydd eisoes yn un o'r dinasoedd gorau ar gyfer ailgylchu yn y DU ac Ewrop. Pwrpas Strategaeth Ailgylchu Caerdydd (2021-25) yw gwella ein perfformiad ailgylchu ymhellach fyth.

Mae'r Strategaeth hon yn ailddatgan ein hymrwymiad i ddiwallu targedau ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru ac yn nodi ein bwriad i symud y 'Tu Hwnt i Ailgylchu' trwy aildddefnyddio adnoddau ac osgoi gwastraff. Mae hefyd yn nodi sut y byddwn yn rheoli gwastraff y ddinas yn fwy effeithiol er mwyn helpu i gyrraedd nodau ein strategaeth 'Un Blaned' a chefnogi'r broses o ddod yn garbon sero-net erbyn 2030.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dri maes ymyrraeth allweddol:

1. Gwella perfformiad ailgylchu gwasanaeth gwastraff masnachol y Cyngor.
2. Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu preswyl i gynnwys ffrydiau gwahanu newydd.
3. Dargyfeirio deunyddiau ailgylchadwy o'r ffrwd wastraff weddilliol (deunyddiau nad oes modd eu hailgylchu).

Rydyn ni'n gwybod bod nifer o heriau yn ein hwynebu. Mae llawer o'r heriau sy'n wynebu Caerdydd, fel ardal ddinesig fawr, yn unigryw mewn cyd-destun Cymreig. Mae materion megis stoc dai amrywiol, poblogaethau dros dro, cyfran uchel o fusnesau a rhaglen reolaidd o ddigwyddiadau mawr yn cyflwyno amrywiaeth o heriau i Gaerdydd.

Ochr yn ochr â hyn, gwyddom fod ansawdd ein hailgylchu yn wael ar hyn o bryd. Ni ddylai tua 30% o'r deunydd sy'n cyrraedd ein bagiau gwyrdd fod yno, sy'n golygu bod deunyddiau y gellid eu hailgylchu'n cael eu halogi ac felly rhaid eu llosgi. Mae hynny'n bron i 10,000 tonnall o ddeunydd ailgylchu gwerthfawr a gollwyd yn 2021.

Yn waeth byth, os yw bagiau ailgylchu yn cynnwys deunydd na ddylai fod yno, fel bwyd, gallai gwyllanod ac anifeiliaid eraill ymosod arnynt gan greu annibendod hyll. Mae ein tîm pwrpasol o gasglwyr gwastraff a'r rhwydwaith ymroddedig o wirfoddolwyr yn gweithio'n galed i glirio strydoedd Caerdydd, ond mae eu gwaith yn anoddach fyth os na fyddwn yn ailgylchu'n gywir.

Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn darparu dros 27 miliwn o fagiau plastig untro y flwyddyn i gasglu deunyddiau ailgylchadwy. Yn syml, mae angen i hyn ddod i ben. Wrth symud ymlaen, bydd angen i'r Cyngor ddarparu cynwysyddion y gellir eu haildddefnyddio a fydd yn addas i'w defnyddio ar draws ein stoc dai amrywiol, yn ogystal ag annog pobl i gyflwyno gwastraff yn gywir.

Yn olaf, rydym ni'n gwybod y gallai 70% o'r deunydd mewn bagiau gwastraff cyffredinol sy'n cael eu casglu o'r palmentydd gael eu hailgylchu. Mae angen i ni weithio gyda thrigolion, ochr yn ochr ag adolygu ein dulliau casglu, er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd hwn yn cael ei ailgylchu yn y ffordd gywir.

Mae methu ag ailgylchu'n gywir yn ddrwg i'r amgylchedd, yn ddrwg i bwrs y wlad ac yn ddrwg i'n cymdogaethau lleol. Gellir mynd i'r afael â'r holl faterion hyn drwy wella ansawdd y deunydd drwy gymryd y camau a nodir yn y strategaeth hon.

1. Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu

Nodau'r Strategaeth Ailgylchu yw:

1. Gwella ansawdd deunyddiau
2. Cynyddu cyfraddau ailgylchu a chasglu deunyddiau â blaenoriaeth
3. Cynyddu cyfleoedd i gymunedau a thrigolion ailgylchu
4. Defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ddatblygu camau gweithredu wedi'u targedu
5. Lleihau plastigau untro
6. Annog a chefnogi'r gwaith o atal, aildddefnyddio ac atgyweirio deunyddiau
7. Cyfrannu tuag at ddatblygu economi gylchol yng Nghymru

Ochr yn ochr â nodau ac amcanion y Strategaeth, ceir nifer o gamau craidd a fydd yn helpu i wireddu gweledigaeth Caerdydd. Nodir y rhain yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1: Amcanion a Chamau Gweithredu Terfynol y Strategaeth

Nodau	Amcanion
Gwella Ansawdd Deunyddiau	Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu i gynnig casglu gwydr ar wahân ** (poteli a jariau), ffibrau (papur a chardbord) a chynwysyddion (caniau a phlastigau)
	Lleihau halogiad gwastraff gardd y gellir ei gompostio drwy strategaethau addysg a gorfodi, a chynnal adolygiad llawn o ddulliau'r gwasanaeth
Cynyddu cyfraddau ailgylchu a chasglu deunyddiau â blaenoriaeth	Adolygu arferion Masnach i wella perfformiad a chydymffurfio â rheoliadau gwastraff annomestig. Bydd hyn yn cynnwys newid dulliau casglu a thargedu contractau ailgylchu
	Ail-lansio ymgyrch 'Sothach Sbwriel' fwy eang gydag ysgolion a masnachau i hyrwyddo gwasanaethau ailgylchu (a chompostio mewn Ysgolion).
	Cynnal adolygiad o ailgylchu mewn fflatiau a llety rhent i wella perfformiad, gweithio gyda phartneriaid perthnasol fel Rhentu Doeth Cymru a WRAP Cymru
	Mabwysiadu a gorfodi polisi dim bagiau cymysg / didoli bagiau yn barhaol mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.
	Adolygu cynllun ac arwyddion y safle, y system archebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid yn effeithiol mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.
	Gwella perfformiad ailgylchu glân drwy wahanu biniau sbwriel ac ailgylchu
	Adolygu darpariaeth gwastraff gweddilliol a chyflwyno mesurau i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth gwastraff bwyd
Cynyddu cyfleoedd i gymunedau a thrigolion ailgylchu	Gosod cyfleusterau ailgylchu statig a symudol mewn cymunedau lleol
	Ehangu cyfleoedd marchnadoedd a chasglu ar gyfer deunyddiau ychwanegol – Cynnyrch Hylendid Amsugol (gwastraff cewynnau ac anymataliaeth)/podiau coffi/tetrapak/ffilm blastig
Defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ddatblygu camau gweithredu wedi'u targedu	Ymgymryd â Dadansoddiad o Gyfansoddiad i bennu'r deunyddiau i'w targedu
	Monitro cyfraddau i lywio gweithgareddau wedi'u targedu
	Rhoi'r ymgyrch Sticeri Pinc ar waith yn seiliedig ar yr egwyddor y dylid addysgu yn gyntaf, ac yna cael gwared ar finiau os yw'r achosion o halogi'n parhau Ymgyrch Bydd Wych, Ailgylcha/Keeping up with the Jones'
	Adolygu pob contract ailgylchu, er mwyn sicrhau bod cyfraddau ailgylchu gofynnol yn cael eu bodloni (lle maent wedi'u nodi) a nodi gwelliant yn y cyfraddau
Lleihau plastigau untro	Defnyddio cynwysyddion y gellir eu hail-dddefnyddio ar gyfer ailgylchu

	Strategaeth plastigau defnydd untro
	Ehangu cyfleusterau ail-lenwi poteli dŵr ar draws y Ddinas, gan hyrwyddo poteli y gellir eu hail-ddefnyddio
Annog a chefnogi'r gwaith o atal, aildefnyddio ac atgyweirio deunyddiau	Canolfan Aildefnyddio Wastesavers ar Ffordd Lamby
	Cydweithio ar weithgareddau cymunedol fel Caffi Benthyc Cymru
	Cyfeirlyfr Atgyweirio CLARE Cymru
	Datblygu map diwastraff
	Datblygu achos busnes ar gyfer canolfan ail-ddefnyddio/atgyweirio/addysg yn y Ddinas
Cyfrannu tuag at ddatblygu economi gylchol yng Nghymru	Gweithio gyda phartneriaid fel CLARE Cymru i ddatblygu atebion rhanbarthol
	Parhau gyda'r partneriaethau prosesu presennol, fel y Prosiect Gwyrdd
	Cymryd rhan weithredol mewn cefnogi partneriaeth gydweithredol 'Dyfodol Gwyrdd Glân' ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru a Llywodraeth Cymru – gan chwilio am atebion prosesu rhanbarthol ar gyfer deunyddiau megis Cynnyrch Hylendid Amsugol

2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r Strategaeth Ailgylchu ar gyfer Caerdydd wedi'i fframio gan ystod o ddylanwadau deddfwriaethol a digwyddiadau cenedlaethol (e.e. pandemig COVID-19) sy'n llunio a phennu'r gwastraff a gynhyrchir a sut mae'n cael ei brosesu.

Mae adran hon y strategaeth yn nodi'r cyd-destun cenedlaethol, gan gydnabod y newidiadau cyd-destunol all ddylanwadu ar gynhyrchu a chasglu gwastraff a'r marchnadoedd terfynol.

2.1 Sbardunau Deddfwriaethol

Mae pwysigrwydd yr amgylchedd a gwarchod adnoddau naturiol yn cael ei gydnabod a'i gefnogi'n fwyfwy gan bolisiau a rheoliadau cenedlaethol a rhyngwladol, sydd â'r nod o leihau'r effaith y mae defnyddio a chynhyrchu deunyddiau'n ei chael ar yr amgylchedd.

Yng Nghymru, mae dwy ddogfen polisi allweddol i'w hystyried ar lefel genedlaethol: Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Strategaeth Gwastraff Cymru (2010); a Mwy nag Ailgylchu - Strategaeth i Wneud Economi Gylchol Cymru yn Realiti (2021). Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r gofynion perfformiad statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, i gefnogi uchelgais hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy a diwastraff. Ymhlith y polisiau a deddfwriaethau perthnasol eraill gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy, gwell canlyniadau amgylcheddol a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mae'r canlynol:

- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011
- Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Strategaeth Gwastraff Cymru (2010)
- Mesur Gwastraff (Cymru) 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn arbennig o bwysig yng Nghymru a chafodd yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, fel y'u mynegir drwy'r Pum Ffordd o Weithio, eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys camau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

2.2 Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Economi Gylchol a Mwy nag Ailgylchu

Lansiwyd Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol Cymru, "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" ar 21 Mehefin 2010. Roedd y strategaeth yn nodi cyfres o dargedau ailgylchu statudol heriol, fel yr amlinellir yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: Targedau Ailgylchu Statudol

Targed ar gyfer Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol	2019/20	2024/25
Y gyfradd ailgylchu gyffredinol ofynnol	64%	70%
Uchafswm i'w anfon i safle tirlenwi	10%	5%
Y lefel uchaf a ganiateir o ran Troi Gwastraff yn Ynni	36%	30%
Lwfans Tirlenwi Bioddiraddiadwy	33557t	-

Yn genedlaethol, gwnaed gynnydd trawiadol tuag at gyflawni'r targedau, a Chymru yw'r wlad sy'n ailgylchu orau yn y DU, yr ail yn Ewrop a'r trydydd yn y Byd. Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud o ran lleihau'r ddibyniaeth ar safleoedd tirlenwi.

Er bod Caerdydd wedi gwneud camau sylweddol ymlaen, ni gyflawnodd y ddinas y darged ailgylchu o 64% yn 2021/22. O ganlyniad, mae'r Cyngor nawr yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i adolygu cyfres o opsiynau i helpu i wella perfformiad ailgylchu.

Gan edrych i adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Economi Gylchol i Gymru – Mwy Nag Ailgylchu, ar 2 Mawrth 2021.

Y nod cenedlaethol yw symud i economi gylchol yng Nghymru, lle mae gwastraff yn cael ei osgoi a lle mae'r pethau rydyn ni'n eu defnyddio'n cael eu cadw mewn defnydd am gyn hired â phosib. Mae hyn yn rhan bwysig o'r camau sydd angen eu cymryd ar y newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru, a thrwy estyniad Cyngor Caerdydd, yn ceisio gwneud y broses o reoli gwastraff yn 'Lanach, Werddach, Decach', drwy 6 thema graidd ac 8 prif gam gweithredu. Mae'r 8 prif gam gweithredu fel a ganlyn:

1. Cefnogi busnesau yng Nghymru i leihau eu hól-troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
2. Darparu'r offer i alluogi gweithredu yn y gymuned
3. Rhoi'r gorau i ddefnyddio eitemau diangen, untro yn raddol, yn enwedig plastig
4. Dileu gwastraff bwyd y mae modd ei osgoi
5. Caffael ar sail sy'n blaenoriaethu nwyddau a chynhyrchion sy'n cael eu gwneud o ddeunyddiau sydd wedi'u hailweithgynhyrchu, eu hadnewyddu a'u hailgylchu neu sy'n dod o ddeunyddiau carbon isel a chynaliadwy fel pren
6. Ymdrechu i gyflawni'r cyfraddau uchaf o ailgylchu yn y byd
7. Lleihau effaith amgylcheddol y broses o gasglu gwastraff o'n cartrefi a'n busnesau
8. Cymryd cyfrifoldeb llawn am gylch oes llawn ein gwastraff

Yn ogystal â'r themâu a'r prif gamau gweithredu, mae'r strategaeth yn pennu nifer o dargedau arwyddocaol ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru:

Tabl 3: Targedau Mwy nag Ailgylchu

Erbyn 2025	Lleihau gwastraff gan 26%
	Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi

	Lleihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi gan 50% Ailgylchu 70%
Erbyn 2030	Lleihau gwastraff gan 33% Lleihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi gan 60%
Erbyn 2050	Defnyddio adnoddau un blaned Lleihau gwastraff gan 62% Dim gwastraff Carbon sero-net

Sylwer: Mae pob targed lleihau gwastraff yn cael ei bennu yn erbyn llinell sylfaen 2006-07

Wrth i Lywodraeth Cymru edrych y tu hwnt i ailgylchu i leihau gwastraff a'r economi gylchol, mae'n hanfodol bod y strategaeth hon yn nodi nid yn unig sut mae cyflawni'r targedau ailgylchu cyfredol, ond hefyd sut bydd y ddinas yn addasu i'r gofynion newydd hyn yn y dyfodol. Rhaid ystyried felly gwella ansawdd y deunyddiau a gesglir, lleihau gwastraff drwy newid ymddygiad a chefnogi ail-ddefnyddio ac atgyweirio yn y gymuned, casglu deunyddiau mwy gwyrdd a sut y byddwn yn cydweithio â thrigolion, partneriaid a chymdogion i ddiwallu'r nodau ac agendâu ehangach.

2.3 Y Newid yn yr Hinsawdd

Mae Mwy Nag Ailgylchu, strategaeth Llywodraeth Cymru i wireddu'r economi gylchol, yn ei gwneud hi'n glir:

'Rydym yn dal i fod yng nghanol argyfwng hinsawdd: yn fyd-eang, rydym yn profi digwyddiadau hinsawdd na welwyd mo'u tebyg o'r blaen; mae disgwyl i'r tymheredd godi'n uwch na 2°C; mae un filiwn o rywogaethau mewn perygl o ddiplannu oherwydd newid yn yr hinsawdd a gorfanteisio ar adnoddau naturiol; ac, mae tystiolaeth gynyddol o'r effeithiau andwyol y mae plastigau yn eu cael ar yr amgylchedd ac ar organebau byw. Yma yng Nghymru, rydym eisoes yn wynebu effaith hyn gyda llifogydd a thywydd eithafol arall yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r heriau hyn yn cynnig cyfleoedd pwysig i siapio ein dyfodol mewn ffordd gadarnhaol.'

Mae arferion defnyddio a gwaredu anghynladwy yn effeithio'n sylweddol ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r dull economi gylchol yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â gor-ddefnyddio, tra hefyd yn ysgogi gwelliannau cymdeithasol ac economaidd i Gymru. Gall newidiadau bach ar draws dinas gael effaith fawr o ran arafu effaith negyddol y newid yn yr hinsawdd.

Drwy ailgylchu deunydd yn 2020/21, llwyddodd trigolion Caerdydd i atal 36,000 tonnall o allyriadau CO2 rhag cael eu rhyddhau i'r atmosffer (<https://myrecyclingwales.org.uk/cy>). Bydd cynyddu cyfraddau ailgylchu y ddinas a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i gyfleusterau adfer ynni drwy gydol oes y strategaeth hon yn parhau i leihau allyriadau CO2 ymhellach a helpu i wneud Caerdydd yn ddinas sero-net erbyn 2030.

3. Cyd-destun Lleol

3.1 Y Ddarpariaeth Bresennol

Mae Caerdydd yn darparu'r gwasanaethau canlynol fel rhan o'i chynllun casglu gwastraff y cartref ac ailgylchu:

- Casgliad wythnosol o ddeunyddiau ailgylchu sych, cymysg mewn bagiau gwyrdd, defnydd untro. Nid oes cyfyngiad ar faint o fagiau sy'n cael eu casglu fesul eiddo.
- Casgliad wythnosol o wastraff bwyd gan ddefnyddio cadï ymyl ffordd 25 litr brown. Darperir cadï cegin, a chadachau bioddiraddadwy ar gyfer y cadï yn rhad ac am ddim.
- Mae gwastraff gardd y gellir ei gompostio yn cael ei gasglu mewn bin gwyrdd 240L, neu sach amldro gwyn 90L (mewn ardaloedd lle nad yw biniau olwynion yn addas). Bydd hyd at 2 fin gwyrdd, neu 5 sach amldro yn cael eu casglu fesul eiddo. Mae Gwastraff Gardd yn cael ei gasglu bob pythefnos yn y gwanwyn/haf, ac yn llai aml yn y gaeaf. Nid oes tâl blyneddol am gasglu gwastraff gardd, er bod modd codi tâl am gynwysyddion ychwanegol neu newydd.
- Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gasglu mewn bin olwynion 140L, neu hyd at 3 bag du ar gyfer eiddo sydd ddim yn gallu cael bin olwynion. Mae gwastraff gweddilliol yn cael ei gasglu bob pythefnos. Darperir capasiti ychwanegol, ar ôl asesiad gan swyddog ailgylchu. Nid yw bagiau ychwanegol sy'n cael eu gosod ger y biniau yn cael eu casglu, a rhaid i orchudd y bin fod ynghau.
- Mae gwastraff hylendid (cewynnau plant, padiau anymataliaeth a gwastraff newid cysylltiedig) yn cael ei gasglu bob pythefnos, ar yr wythnos pan nad yw gwastraff ailgylchadwy'n cael ei gasglu. Mae angen i drigolion gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Gellir archebu casgliadau gwastraff swmpus ymlaen llaw trwy'r ganolfan gyswilt, ap dyfeisiau symudol neu'r wefan. Caiff eitemau y gellir eu hailgylchu'n llawn, sydd â chyfraddau adfer uchel a ffioedd gwaredu isel, eu casglu am ddim. Caiff eitemau na ellir eu hailgylchu eu casglu ar strwythur prisio o hyd at 2 eitem am £12.50, gan gynyddu i uchafswm o 6 eitem.

Yn ogystal â'r uchod, mae Cyngor Caerdydd yn gweithredu dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, un yn Ffordd Lamby ac un yng Nghlos Bessemer. Mae gan y Canolfannau Ailgylchu gyfleusterau ailgylchu ar gyfer dros 20 o eitemau. Mae'n rhaid i drigolion archebu i fynd iddynt ac maen nhw wedi'u cyfyngu i hyd at 26 o ymweliadau y flwyddyn (yn y car). Dim ond hyd at 12 o ymweliadau y flwyddyn y gellir eu gwneud mewn fan, a hynny dim ond unwaith y mis. Ni dderbynnir bagiau o wastraff cymysg. Rhaid i drigolion ddi-doli gwastraff cyn cyrraedd, a byddwn yn archwilio'r cyfle i ddarparu cyfleusterau i'w galluogi i ddi-doli gwastraff ar y safle.

Mae gwasanaeth pont bwysu masnach hefyd yn cael ei gynnig yng Nghlos Bessemer, sy'n galluogi busnesau i ailgylchu a gwaredu amrywiaeth o ddeunyddiau am gost.

Beth sy'n digwydd i'r deunydd sy'n cael ei gasglu?

Mae Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol cyfagos, er mwyn prosesu a didoli deunydd yn ein ffiniau ein hunain.

Mae gwastraff bwyd yn cael ei gymryd i ffatri Treulio Anaerobig, sy'n cael ei redeg gan Dŵr Cymru. Yma, mae gwastraff bwyd yn dadelfennu heb ocsigen sy'n cael ei gynorthwyo gan wres. Drwy'r peiriant treulio anaerobig, mae'r nwyon a gynhyrchir yn cael eu dal i wneud gwres

a thrydan tra'n creu gwrtaith o unrhyw gynnyrch sy'n weddill i'w ddefnyddio mewn amaethyddiaeth.

Mae deunyddiau sych, cymysg y gellir eu hailgylchu yn cael eu cludo i Gyfleuster Adfer Deunyddiau (CAD) y Cyngor yn Ffordd Lamby, Tredelerch. Trwy gymysgedd o ddioli â pheiriant ac â llaw, mae deunyddiau'n cael eu gwahanu a'u rhoi mewn bêls cyn mynd at broseswyr i gael eu hailgylchu i gynnyrch newydd. Gallwch weld i ble yr aiff eich ailgylchu yn <https://myrecyclingwales.org.uk/cy>

Mae'r CAD yn cael ei chynnal yn effeithiol gan dîm ymroddedig o staff, sy'n gweithio mewn amgylchedd heriol. Mae'r her hon yn cael ei gwaethygu ymhellach gan lefel yr eitemau anghywir sy'n cael eu rhoi mewn bagiau ailgylchu gwyrdd. Er bod yr offer a'r staff yn gallu delio ag eitemau cyffredin sy'n cael eu rhoi yn y bagiau ar gam, fel plastig hyblyg, nid ydynt yn gallu delio â halogiad brwnt fel gwastraff bwyd a chewynnau. Nid yn unig y mae'r rhain yn lleihau ansawdd y deunydd, ac yn effeithio ar y peiriannau, maent hefyd yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd y mae ein staff yn gweithio ynddo.

Yn ogystal, wrth i'r Ddinas dyfu ac wrth i swm yr ailgylchu a gesglir gynyddu, mae'r lle a'r gallu i brosesu'r holl ddeunydd ailgylchu wedi dod yn her. Mae angen newid seilwaith, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda WRAP Cymru ac Eunomia i gynnal adolygiad er mwyn sicrhau bod ein cyfleusterau ailgylchu yn addas ar gyfer y dyfodol.

Mae gwastraff gardd yn cael ei gymryd i safle compostio yn Ffordd Lamby, lle mae'n cael ei droi'n deunydd gwella pridd drwy broses rhesi agored. Mae'r deunydd yn cael ei ddanfon i'r safle, lle mae wedyn yn cael ei rwygo, ei bentyrru'n rhesi a'i droi'n rheolaidd. Mae'r holl broses yn naturiol, gyda gwres naturiol yn cael ei gynhyrchu ac yn dadelfennu'r deunydd. Ar ddiwedd y broses, mae'r deunydd yn cael ei wahanu i wahanol ffracsiynau maint trwy sgrin gogr tro, ac yn cael ei symud ymlaen i'r farchnad gynnyrch. Mae'r compost yn cael ei roi hefyd i nifer o gyfleusterau cymunedol ac ysgolion ar gais, fel safle newydd Gerddi'r Rheilffordd ac i lenwi blychau plannu cymunedol Carwch Eich Cartref.


Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gymryd i Gyfleuster Adfer Ynni - sy'n cael ei gynnal gan Viridor - lle mae'n cael ei ddefnyddio fel tanwydd ar gyfer adfer ynni. Mae'r cyfleuster yn cynhyrchu 250GWH o drydan ar gyfer y grid cenedlaethol, sy'n ddigon i danio 68,000 o gartrefi. Mae adfer ynni yn gweithio trwy losgi gwastraff ar dymheredd uchel, o dan amodau a reolir yn ofalus. Mae'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei fwydo i'r grid cenedlaethol. Mae'r broses hefyd yn cynhyrchu 'lludw gwaelod' y gellir ei ailgylchu fel deunydd agreg yn ogystal â chludo metel sy'n weddill i broseswyr metel.

Gallwch weld fideo byr o siwrnai gwastraff Caerdydd yma:
[Siwrnai Gwastraff Caerdydd \(Cymraeg\) - YouTube](#)
neu fynd i www.youtube.co.uk a chwilio 'Siwrnai Gwastraff Caerdydd'

3.2 Perfformiad Presennol a Chymariaethau


Ar 26 Tachwedd 2021, cyhoeddwyd ffigurau terfynol Targed Adfer Awdurdodau Lleol 2019-20 gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff y ffigurau eu cynhyrchu dan ddyletswyddau CNC fel yr Awdurdod Monitro fel y nodir yn y Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011. Fel y gwelir yn Ffigur 1, ni lwyddodd Caerdydd i gyrraedd targed isafswm statudol 2019-20 ar gyfer y ganran o wastraff dinesig y mae'n rhaid ei ailgylchu, Mesur 2010. Dilyswyd perfformiad ailgylchu Caerdydd yn 2019-20 ar 58.14%, bron 6% yn is na'r targed statudol o 64%.

Ffigur 1: Perfformiad Ailgylchu Cymru 2019-20



Mae'r Cyngor yn deall yr angen i sicrhau newid sylweddol arall mewn perfformiad. Fodd bynnag, fel yr awdurdod mwyaf yng Nghymru, gyda'r mäs trefol mwyaf a'r dwysedd uchaf o fusnesau, mae nodweddion penodol iawn sy'n gwneud cyrraedd y targedau ailgylchu statudol yn heriol. Yn naturiol, bydd dinasoedd mwy trefol yn wynebu mwy o heriau o ran cynyddu perfformiad ailgylchu. O gymharu â dinasoedd craidd ar draws y DU, mae perfformiad ailgylchu ymyl ffordd Caerdydd yn cymharu'n dda iawn (gweler Ffigur 2).

Ffigur 2: Perfformiad Ailgylchu Dinasoedd Trefol



Sylwer: Mae data ar gyfer awdurdodau Lloegr yn cynnwys gwastraff cartref yn unig, tra bod data Cymreig yn cynnwys yr holl wastraff dinesig (h.y. gwastraff masnach a glanhau).

Er nad yw Caerdydd wedi bodloni targed Llywodraeth Cymru, mae ganddo feysydd o gryfder. Yn 2021/22, fe welodd Caerdydd gynnydd o 9% mewn gwastraff bwyd a gasglwyd o ymyl y ffordd, a gostyngiad o 4% yn gyffredinol yn y gwastraff a gasglwyd o ymyl y ffordd. Mae'r gwelliannau i sut mae'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn cael eu gweithredu wedi arwain at berfformiad ailgylchu dros 87% gyda gostyngiad o 74% mewn gwastraff na ellir ei ailgylchu ers gweithredu rheolaethau newydd.

Canfu dadansoddiad cyfansoddiadol diweddar o fagiau gwyrdd ar draws y Ddinas fod yna 41.4% o halogiad mewn bagiau ailgylchu sych a gasglwyd o fflatiau o gymharu â 23.7% o halogiad mewn bagiau gwyrdd a gasglwyd o gartrefi.

Mae'r dadansoddiad cyfansoddiadol (Atodiad 6) hefyd yn dangos bod swm mawr o wastraff bwyd ac ailgylchu yn dal i fynd i mewn i'r ffrwd o wastraff gweddilliol. Gwastraff a gasglwyd o fflatiau oedd â'r gyfran uchaf o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu gyda 51.9% o'r ffrwd o wastraff gweddilliol yn cynnwys deunydd ailgylchadwy targed. Roedd gwastraff gweddilliol a gasglwyd o aelwydydd yn cynnwys 42.5% o ddeunydd ailgylchadwy targed (cyfran fawr ohonynt yn wastraff bwyd). Er bod llai o ddeunydd ailgylchu mewn gwastraff cartref sy'n cael ei gasglu nag sydd mewn gwastraff a gesglir o fflatiau, mae'n amlwg bod cryn dipyn o ddeunydd targed yn mynd i wastraff o hyd.

Mae'n hanfodol felly, yn ogystal â gwella ansawdd y deunydd, ein bod yn cynyddu faint o ddeunydd sy'n cael ei wahanu i'w ailgylchu wrth ymyl y ffordd.

3.3 Cyflawniadau Hyd Yma

Er nad yw Caerdydd wedi cyrraedd y targed o 64% eto, mae Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i weithio ar y cyd i wella perfformiad ailgylchu a bodloni'r targed perfformiad statudol o 64% a 70% erbyn 2024/25. Mae gwelliannau i reoli gwastraff a pherfformiad ailgylchu yn rhan sylfaenol o strategaeth y ddinas.

Y dull sy'n cael ei gymryd yw edrych ar oes cyfan deunyddiau ailgylchu; o gefnogi cyfranogiad ac ymddygiadau trigolion, gweithredu casgliadau effeithlon ac effeithiol i gefnogi cyfranogiad parhaus, a rheoli sut a lle mae deunyddiau'n cael eu hailgylchu i ddarparu economi gylchol a lleihau'r effeithiau carbon cysylltiedig.

Mae nifer o welliannau wedi eu cyflwyno ers y strategaeth ddiwethaf sydd wedi'n galluogi i gyflawni'r rhan fwyaf o'r nodau a amlinellwyd yn Strategaeth Gwastraff Caerdydd 2018-21. Cynhaliwyd dadansoddiad llawn o'r bylchau, gan gymharu perfformiad yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y strategaeth ddiwethaf, ac mae ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r cyflawniadau mwyaf arwyddocaol yn cynnwys:

- Cyflwyno treial ailgylchu ar wahân mewn 4,000 o eiddo, sy'n cynnwys casgliadau cynwysyddion, ffibrau a gwydr ar wahân (yn dilyn ymlaen o gynllun peilot casglu gwydr ar wahân)
- Ehangu'r gwasanaeth bin olwynion lle bo'n bosibl, gan leihau nifer y bagiau untro a ddarperir ar gyfer gwastraff gweddilliol.
- Cyflwyno wythnos casglu 4 diwrnod, sy'n cynnwys:
 - Ail-barthu'r ddinas a chynyddu effeithlonrwydd y rowndiau
 - Cael gwared ar shifftiau dwbl cerbydau a staff, sy'n golygu gwell cyfle i gynnal a chadw cerbydau.
 - Dileu'r dryswch ynghylch casgliadau Dydd Llun Gŵyl y Banc
 - Gwella Gwerth am Arian
- Sefydlu cyfleuster ailddefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Ffordd Lamby mewn Partneriaeth â Wastesavers (Medi 2021). Ers ei agor, mae'r cyfleuster hwn wedi dargyfeirio 67t o wastraff o'r canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref i'w haildefnyddio
- Cyflwyno rheolaethau newydd yn y Canolfannau Ailgylchu er mwyn hwyluso cynnydd mewn perfformiad ailgylchu o 73% i 87%, gan gynnwys polisi dim bagiau cymysg, gwell arwyddion a system archebu ac argaeledd ailgylchu. Golyga hyn bod gan Gaerdydd un

o'r perfformiadau ailgylchu gorau ymhlith Canolfannau Ailgylchu ar draws Cymru erbyn hyn.

- Ehangu gwasanaeth sgiplau Masnach i hwyluso sgiplau ailgylchu.
- Datblygwyd seilwaith ailgylchu newydd mewn canolfannau i hwyluso ailgylchu eitemau trydanol bach, cetrir peiriannau argraffu, batris a cryno ddisgiau/DVDs/Ilyfrau (casglwyd dros 500KG hyd yma).
- Parhau i weithio gyda WRAP Cymru i gynnal adolygiad o systemau casglu gwastraff posibl, costau cymharol a manteision.
- Dechrau adolygiad llawn o wastraff masnach a phrosesu deunyddiau gyda WRAP Cymru.
- Cyflwyno 12 cerbyd trydan i fflyd y gwasanaeth, ac mae 5 cerbyd casglu sbwriel trydan arall ar y ffordd.
- Cyflwyno system i hwyluso'r broses o ailgylchu deunyddiau sydd a gasglwyd yn ystod sesiynau codi sbwriel cymunedol.
- Gweithredu'r ymgyrch 'Sticer Pinc' i dynnu sylw at ailgylchu mewn bagiau sy'n cynnwys eitemau na ellir eu hailgylchu. Mae hyn yn cefnogi'r model ymgysylltu, addysgu, grymuso a gorfodi ar gyfer newid ymddygiad, i wella ymddygiadau tuag at ailgylchu a lleihau halogiad ailgylchu.
- Caniatáu derbyn asbestos mewn Canolfannau Ailgylchu i fynd i'r afael ag effaith negyddol halogiad asbestos ar ailgylchu gwastraff gardd. Yn 2019/20, cafodd 30 tonnelli o wastraff gardd ei halogi gan asbestos gyda'r gofyniad i waredu mewn safleoedd tirlenwi arbenigol.
- Rhoddwyd treialon ar waith i wella cyfranogiad ac ansawdd ailgylchu mewn blociau o fflatiau, tra'n meithrin perthynas â Chyngor Bryste, Cyngor Abertawe a WRAP Cymru ar y cyd i ddatblygu gwelliannau pellach.
- Ymgysylltu â 3,326 o drigolion drwy weithgaredd ymgysylltu â'r gymuned - gan gynnwys 845 o blant ysgol - drwy'r Ymgyrch Sothach Sbwriel rhwng Mehefin 2021 a Mehefin 2022.
- Cynnal cyfleusterau ailgylchu symudol ledled y Ddinas.

3.4 Heriau

Er bod y mesurau uchod wedi eu cyflwyno, nid oes gwelliant sylweddol wedi bod ym mherfformiad ailgylchu Caerdydd ers 2016/17. Mae hyn yn rhannol yn sgil Covid yn gohirio cynnydd ac amlygrwydd rhai o'r newidiadau hyn, ac yn rhannol oherwydd y ffaith bod nifer o heriau'n atal gwella perfformiad.

Yn adran 5, mae'r strategaeth yn amlinellu sut y byddwn yn gwella perfformiad drwy amrywiaeth o gamau gweithredu, ond yn gyntaf mae'n bwysig rhoi'r cynllun gweithredu mewn cyd-destun drwy amlinellu'r heriau sy'n wynebu awdurdod dinesig. Gellir categorio'r rhain yn 4 maes allweddol:

- Fflatiau a Thai Meddiannaeth
- Newidynnau cymdeithasol-ddemograffig
- Masnach a digwyddiadau
- Twf tai a phoblogaeth

Fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth

Mae tua 30% o gyfanswm nifer yr eiddo yng Nghaerdydd yn fflatiau, sydd fel arfer yn defnyddio trefniadau biniau cymunedol. Cydnabyddir bod gwella ansawdd a maint ailgylchu o fflatiau yn genedlaethol fel her heb lasbrint i ddatrys y broblem hon.

Yn ogystal, mae gan Gaerdydd hefyd lawer iawn o Dai Amlfeddiannaeth cofrestredig sy'n cael eu gwasanaethu gan y cynllun casglu ymyl ffordd. Mae Tai Amlfeddiannaeth yn cyflwyno cyfres unigryw o heriau i gymunedau lleol a'r Awdurdodau Lleol. Mewn ardaloedd sydd â mwy o Dai Amlfeddiannaeth fel yr ardaloedd hynny ger campysau Prifysgolion, mae dwysedd y boblogaeth leol yn uwch, ac, felly, mae'r galw am wasanaethau fel gwastraff ac ailgylchu yn fwy. Mae cartrefi Tai Amlfeddiannaeth hefyd yn gysylltiedig yn aml â lefelau ailgylchu is a gwastraff gormodol ac yn cyflwyno heriau penodol wrth ymgysylltu â thrigolion

Mae maint yr her yn cael ei thanlinellu gan y ffaith fod 50,000 o fflatiau yng Nghaerdydd. Mae hyn yn uwch na holl stoc dai awdurdodau fel Ynys Môn, Sir Ddinbych, Ceredigion, Merthyr, Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy (data StatsCymru 2019).

O'r holl fflatiau hyn, mae 42,000 mewn blociau o 4 neu fwy, gyda threfniadau casglu cymunedol. Mae cyfran uchel o fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth yn creu problemau penodol iawn. Mae pobl sy'n byw mewn fflatiau yn ailgylchu llawer llai na'r rhai sy'n byw mewn tai, er bod diffyg tystiolaeth sylweddol ynghylch pam yn union, neu sut y gellid ei wella¹.

Gall y ffaith bod 30% o'r stoc dai yn cynnwys fflatiau gyfrannu tuag at gyfradd gwrthod ailgylchu anghymesur o uchel Caerdydd. Ar hyn o bryd, mae 8% o ailgylchu cymysg sych (ACS) yn cael ei wrthod yng Nghaerdydd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 2%. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda WRAP Cymru i gynnal dadansoddiad pellach o gyfansoddiad y deunyddiau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu casglu o fflatiau, er mwyn craffu ar y dybiaeth hon. Er bod 30% o stoc dai Caerdydd yn fflatiau, cydnabyddir nad yw'r gwastraff a gesglir o fflatiau yn cyfrannu 30% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion, oherwydd y lefel deiliadaeth is fesul annedd. Serch hynny, mae hyn achosi her fawr.

Newidynnau Cymdeithasol-ddemograffig

Mae lefelau tlodi mewn rhannau o Gaerdydd yn uchel o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Pe byddai Arc Ddeheuol Caerdydd (sy'n cynnwys rhanbarthau etholiadol Adamsdown, Butetown, Caerau, Treganna, Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Glan-yr-afon, Tredelerch, y Sblot, Trowbridge) yn cael ei hystyried yn un awdurdod lleol unigol, gyda phoblogaeth o 170,000, dyma fyddai'r awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru o bell ffordd. Mae llawer o'r wardiau hyn hefyd yn amlddiwylliannol gyda lefelau uchel o boblogaeth dros dro. Fel y nodwyd ym Mhapur Briffio Tŷ'r Cyffredin yn ddiweddar - Ailgylchu gwastraff cartref, mae cymysgedd tai a thai amlfeddiannaeth yn rhwystr i gyfraddau ailgylchu ar draws Prydain. Fel y noda'r adroddiad "*Mae cyfraddau ailgylchu yn gostwng mewn ardaloedd lle mae cynnydd mewn anheddau amlddeiliadaeth. Mae cyfraddau hefyd yn tueddu i fod yn is lle mae heriau gydag amddifadedd cymdeithasol, dosbarthiadau trefol, addysg, iaith a sefydlogrwydd preswyl.*" Mae'r ffactorau hyn i gyd yn gyffredin yn Arc Ddeheuol Caerdydd ac yn effeithio ar lefelau cyfranogiad mewn ailgylchu.

Yn ogystal, mae tua 70,000 o fyfyrwyr wedi cofrestru i astudio ym Mhrifysgolion Caerdydd, sy'n arwain at boblogaeth fawr o fyfyrwyr yn y ddinas. Mae safon academiaidd uchel Prifysgolion y rhanbarth ynghyd â nifer o fwynderau niferus Caerdydd, fforddiadwyedd a chyfeillgarwch yn gwneud y ddinas yn lle deniadol i fyfyrwyr fyw. O ganlyniad, rhagamcanir y bydd y boblogaeth myfyrwyr yn tyfu'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf, a bydd angen buddsoddi mwy mewn addysg ac ymgysylltu i ateb y galw cynyddol.

¹ Gwneud i Ailgylchu Weithio mewn Fflatiau - Resource London.

I lawer o fyfyrwyr, dyma fydd y tro cyntaf iddyn nhw fyw i ffwrdd o'u cartref teuluol ac maen nhw'n llywio'r cyfrifoldebau newydd sy'n dod gydag annibyniaeth. Mae myfyrwyr ail a thrydedd flwyddyn ac ôl-raddedigion yn aml yn dewis preswyllo mewn tai preifat yn y gymuned.

Mae'r Cyngor, y Prifysgolion, yr Undebau Myfyrwyr a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu rhaglenni addysg ac ymgysylltiadau ac ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'r materion hyn yn flynyddol wrth i fyfyrwyr newydd symud i'r gymuned.

Gwastraff Masnach

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff masnach, sydd wedi'i adeiladu ar ddarparu gwasanaeth dibynadwy a chyfrifol i fusnesau Caerdydd. Mae ganddo sylfaen o gwsmeriaid ffyddlon, gyda nifer cyson o tua 3,000 o gwsmeriaid, sy'n cynrychioli tua 30% o fusnesau'r ddinas.

Nid yw darparu gwasanaeth casglu gwastraff masnach yn ofyniad statudol, ac felly mae'n ffactor amrywiol i gyrraedd targedau ailgylchu ar draws awdurdodau lleol. Mae gwastraff masnach yn cyfateb i dros 9% o'r holl wastraff a gesglir yng Nghaerdydd, o gymharu â chyfartaledd Cymru o ychydig dan 4%.

Mae dadansoddiad lefel uchel yn awgrymu y byddai dileu'r gwasanaeth hwn yn gyfan gwbl yn gweld gwelliant sydyn o 3.7% mewn cyfraddau ailgylchu Caerdydd (Dadansoddiad Lefel Uchel WRAP o WasteDataFlow). Fodd bynnag nid yw Cyngor Caerdydd yn ystyried dileu gwastraff masnach er mwyn helpu i gyrraedd y targed ailgylchu statudol fel ymyrraeth briodol neu gynaliadwy. I'r gwrthwyneb, mae Caerdydd yn cydnabod y potensial posibl sydd ar gael o fewn ffrwd wastraff masnach y ddinas, ac mae wedi nodi rhestr o gamau gweithredu tymor byr a thymor hir i ddatblygu'r potensial hwn. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen iddo arwain drwy esiampl, i ennyn gwelliant sylweddol mewn ailgylchu ar draws y sector casglu gwastraff masnach preifat yn y ddinas.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i lunio adolygiad masnach llawn er mwyn deall y cyfleoedd i wella ailgylchu yn y maes hwn. Ar hyn o bryd mae masnach yn ailgylchu tua 42% o wastraff sy'n cael ei gasglu, ac felly'n effeithio ar berfformiad ailgylchu cyffredinol y ddinas. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod lle i wella'r ffigur hwn yn sylweddol yn unol â'r Rheoliadau Gwastraff Annomestig sy'n dod i rym, ac wrth wneud hynny gwella perfformiad ailgylchu cyffredinol y ddinas gan o leiaf 3%.

Twf Tai a Phoblogaeth

Mae poblogaeth Caerdydd wedi cynyddu'n gyson dros y 30 mlynedd diwethaf (tua 2,400 o bobl y flwyddyn), ond yn llawer cyflymach ers 2001 (tua 3,500 y flwyddyn). Yng nghyfrifiad 2021 cofnodwyd poblogaeth o 362,400.

Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru'n dangos y bydd nifer y cartrefi yng Nghaerdydd yn cynyddu 37% rhwng 2008 a 2026 o 136,741 i 187,302 o aelwydydd. Yn ôl rhagamcanion Llywodraeth Cymru, ysgogir hyn yn rhannol gan bobl yn mudo i'r ddinas (yn enwedig mudo rhyngwladol net), yn rhannol gan gynnydd yn y boblogaeth naturiol (mwy o enedigaethau a llai o farwolaethau), ac yn rhannol gan ostyngiad ym maint cyfartalog aelwydydd gyda thros dri chwarter o'r twf mewn aelwydydd 1 a 2 berson. (Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 – 2026).

Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI) yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, gyda'r nod o baratoi CDLI newydd i gwmpasu'r cyfnod 2021-26. Bydd angen diweddarau gwahanol elfennau o'r sylfaen dystiolaeth wreiddiol i ystyried materion fel argaeledd tir a newidiadau polisi a chyd-destunol ers mabwysiadu'r hen gynllun. Am y tro, mae'r

rhagamcanion sydd ar gael yn y CDLI mabwysiedig presennol wedi cael eu defnyddio i roi rhywfaint o gyd-destun i'r her.

Tabl 4: Twf poblogaeth a ragwelir yn ystod y strategaeth hon

Blwyddyn	Poblogaeth CDLI	% y cynnydd	Aelwydydd CDLI	% y cynnydd
2020	381023		164126	
2021	384679	0.9%	166413	1.3%
2022	388329	0.9%	168700	1.3%
2023	392024	0.9%	170987	1.3%
2024	395795	0.9%	173274	1.3%
2025	399666	0.9%	175561	1.3%
2026	403684	1%	177845	1.3%

Ffynhonnell: Senario C CDLI Edge

Mae'n anochel y bydd y twf yma'n arwain at gynnydd yn lefel y gwastraff sydd angen ei gasglu. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau, drwy'r prosesau cynllunio perthnasol, y darperir llefydd storio allanol digonol ar gyfer gwahanu deunyddiau gwastraff a rhoi ystyriaeth ychwanegol i ddiogelu at y dyfodol pe bai'r gwasanaethau casglu'n newid. Yn ogystal, bydd angen ystyried yr effaith ar faint y rowndiau casglu, cerbydau ychwanegol a staffio.

4. Cyflawni Nodau ac Amcanion y Strategaeth

4.1 Gwella Ansawdd Deunyddiau

Cynllun Gweithredu ar gyfer Ailgylchu Sych

Mae Cyngor Caerdydd wedi cael cefnogaeth Rhaglen Newid Gydweithredol (RhNG) Llywodraeth Cymru i ymchwilio i effaith gwahanol opsiynau casglu deunyddiau ailgylchu a gwastraff, o ran cost a pherfformiad. Byddwn yn ehangu'r gwaith hwn ymhellach i adolygu effeithiau carbon pob opsiwn. Yn ogystal, mae'r RhNG wedi darparu cefnogaeth barhaus mewn perthynas â dadansoddiad lefel uchel o'r data a adroddwyd ynghylch llif data gwastraff, ochr yn ochr ag adolygiad gwastraff masnach a phrosesu deunyddiau llawn. Mae'r darnau hyn o waith wedi rhoi opsiynau newid gwasanaethau hirdymor i'r Cyngor a hefyd wedi nodi meysydd y gellir eu gwella yn y tymor byr i ganolog.

Fel y gweler yn Nhabl 5, dangosodd canlyniad y dull modelu casglu ymyl y ffordd welliant cyfyngedig i gyfraddau ailgylchu ac adfer a'r angen am ystod o ymyriadau pellach os yw Caerdydd am gyrraedd targedau ailgylchu statudol. Mae'r Cyngor yn glir, fodd bynnag, na all y gwasanaeth casglu deunyddiau ailgylchu presennol aros fel y mae, gan fod angen gwella ansawdd y deunydd yn sylweddol.

Tabl 5: Crynodeb o Ganlyniadau Modelu

Opsionau	Manylion yr Opsiwn	Newid perfformiad o gymharu â'r llinell sylfaen* – (% GST a adferwyd)	Cost yr opsiwn – o gymharu â chost llinell sylfaen (£000)
Opsion 1	Didoli ymyl y ffordd gyda bwyd ar yr un cerbyd	1.60%	-£1,373
Opsion 2	Didoli ymyl y ffordd (papur/cerdyn wedi'i gymysgu) gyda bwyd ar wahân	1.60%	-£666
Opsion 3	Gwydr ar wahân (cadi), ffibrau a chynhwysyddion ar wahân mewn sachau y gellir eu hailddefnyddio ar un cerbyd	1.40%	-£113

Nodiadau'n ymwneud â Thabl 5:

- 'Cost llinell sylfaen' - yw cost y gwasanaeth adeg y modelu h.y. 'cost busnes fel arfer'.
- Mae cost yr opsiwn yn cyfeirio at y gwahaniaeth rhwng cost llinell sylfaen neu fusnes fel arfer a chost yr opsiwn a gynigir.
- 'Fel y mae'- deunydd o ymyl y ffordd a gasglwyd fel y nodir yn adran 2.1, a gesglir gan ein Cerbydau Casglu Gwastraff safonol
- 'Didoli ymyl ffordd'- cynhwysyddion ar wahân ar gyfer gwydr, papur, cardbord, poteli plastig, tybiau, hambyrddau a thuniau / caniau. Cesglir ar gerbyd didoli wrth ymyl y ffordd gyda sawl stelin. Mae deunydd yn cael ei gasglu mewn swmp a'i ailbroseu, ac felly nid oes angen didoli deunydd i'r un graddau
- 'Ffibrau' - papur a chardfwrdd
- 'Pecynnu'- tuniau / caniau metel, tybiau plastig, poteli a hambyrddau
- One Pass - cerbyd casglu gwastraff, gyda rhaniad 70%/30% yn y cefn i gadw 2 ddeunydd ar wahân, a chynhwysydd ar gyfer gwydr yn y blaen

Mae Dadansoddiad Lefel Uchel WRAP o'r ddogfen *Llif data gwastraff* yn dangos, ar hyn o bryd, bod ychydig dros 30% o'r hyn sy'n cyrraedd CAD yn cael eu gwrthod, gyda 18% yn ddeunydd nad yw'n cael ei dargedu, a 12% yn cael eu colli fel rhan o'r prosesu.

Mae gwastraff ailgylchadwy cymysg sy'n cael ei wrthod yn ffurfio 8% o gyfanswm y sgil-gynhyrchion gwastraff na ellir ei ailgylchu (gweddilliol), sydd 6% yn uwch na chyfartaledd Cymru. I roi hyn yn ei gyd-destun, yn seiliedig ar 2019/20, cafodd tua 10,000 tonnall o ddeunyddiau eu colli yn sgil cael eu gwrthod. A chymryd y gellid fod wedi ailgylchu 60% o'r deunyddiau hyn, pe buasent wedi eu gwahanu'n gywir, byddai 6,000 tonnall o ddeunydd ychwanegol wedi'u hailgylchu. O gofio bod tua 2000t o ailgylchu ychwanegol yn cyfateb i tua 1% o gynnydd mewn perfformiad, heb halogiad gellid bod wedi cyfrannu 3% yn ychwanegol tuag at y perfformiad ailgylchu cyffredinol.

Er bod yr uchod yn gyfrifiad amrwd, mae'n dal yn amlwg bod llawer i'w ennill drwy newid y ffordd y mae ailgylchu'n cael ei gasglu a'i brosesu ar hyn o bryd. Felly mae angen symud tuag at wahanu deunyddiau a gasglwyd er mwyn gwella ansawdd deunyddiau a sicrhau cyrchfannau marchnad ar gyfer y deunydd ailgylchadwy a gesglir. Ymhellach at hyn, mae Mwy nag Ailgylchu yn amlygu'r angen am ddeunydd o ansawdd uchel i fwydo'r prosesau ailbrosesu ac ail-weithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae modelu'r RhNG yn awgrymu ymhellach bod halogi'n lleihau'n sylweddol drwy gyflwyno cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio - yn ogystal â ffrydiau deunyddiau ar wahân. Mae nifer o ragdybiaethau ynglŷn â'r rhesymau dros hyn. Mae darparu cynhwysydd sydd angen ei ddychwelyd i eiddo yn debygol o leihau'r demtasiwn o osod deunydd 'afan' yn y cynhwysydd, fel cewynau a gwastraff bwyd. Mae trefniadau casglu deunydd ailgylchadwy presennol y Cyngor yn caniatáu diwylliant 'allan o'r golwg, allan o feddwl', lle mae bagiau'n cael eu casglu o ymyl y ffordd.

Ar ben hynny, bydd gwahanu deunyddiau a darparu cynwysyddion agored yn ei gwneud hi'n haws i griwiau casglu nodi a gwrthod unrhyw ddeunyddiau anghywir. Mae'r gwasanaethau un ffrwd presennol - gwastraff bwyd a photeli a jariau gwydr - yn adrodd cyfraddau halogi isel iawn, gan ddangos manteision defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio a chasgliadau deunyddiau ar wahân.

Mae cynllun peilot ar waith mewn 4 rhan o'r ddinas ar hyn o bryd i gasglu deunydd ailgylchadwy ar wahân. Mae trigolion yr ardaloedd hyn yn defnyddio sach y gellir ei hailddefnyddio ar gyfer cynwysyddion, sach y gellir ei hailddefnyddio ar gyfer pecynnu a chadi ar gyfer gwydr. Mae'r canlyniadau cychwynnol wedi bod yn addawol iawn, gyda lefelau halogi yn y rhanbarth yn 5% yn unig, ac mae ansawdd y deunyddiau wedi gwella'n sylweddol.

Mae amrywiaeth o gerbydau wedi cael eu treialu yn ardaloedd y cynllun peilot, sydd wedi darparu data allweddol ar ystod o welliannau y mae angen eu gwneud. Yn ystod Hydref 2022, bydd gennym gerbyd casglu aml-ffrwd yn yr ardaloedd hyn, a fydd yn gallu casglu 4/5 o ddeunyddiau ailgylchu ar y tro. Ar yr adeg honno, byddwn yn gallu ehangu'r cynllun peilot ymhellach i'r ddinas, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd o gam cyntaf y cynllun peilot.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r treial hwn - a modelu pellach mewn partneriaeth â WRAP a CLILC - bydd Caerdydd yn llunio achos busnes dros sicrhau bod casgliadau ailgylchu gwell newydd yn cael eu rhoi ar waith ledled y ddinas dros y blynyddoedd i ddod.

Er nad yw'r model wedi'i gwblhau eto, bydd yn bodloni nodau'r strategaeth i wella ansawdd deunyddiau, cynyddu cyfranogiad a lleihau sachau plastig untro, nad ydynt yn opsiwn cynaliadwy. Bydd hefyd yn ystyried ymgynghoriad cyhoeddus a'r awydd cynyddol am wasanaethau mwy cynaliadwy. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yng Ngwanwyn 2022 a chafodd 3,305 o ymatebion. Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen gwella ansawdd deunyddiau. Roedd y mwyafrif o blaid naill ai model 3 ffrwd neu ddiidoli ymyl y ffordd

(48.8% a 19.2% yn y drefn honno), ond dywedodd 32% y dylid ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r Ddinas. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn Atodiad 7.

Beth bynnag fydd y model sy'n cael ei gytuno ar gyfer y dyfodol, bydd angen darparu digon o ddeunyddiau er mwyn datblygu economi gylchol yng Nghymru. Mae gwella ansawdd deunyddiau yn hanfodol er mwyn cyflawni'r amcan hwn, ac mae tystiolaeth yn dangos y ceir yr ansawdd gorau posibl o ddeunyddiau drwy wahanu gwastraff yn fwy. Yn ogystal, bydd angen diogelu'r gwasanaeth yn ddigonol at y dyfodol, er mwyn caniatáu casglu deunyddiau ychwanegol wrth i becynnau newid ac yn unol â diweddariadau yn y marchnadoedd ailgylchu yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y bydd newid yn arwain at ansicrwydd am gyfnod. Trwy recriwtio staff rheng flaen ychwanegol, byddwn yn gallu cryfhau gweithgarwch addysg a gorfodi, a fydd yn allweddol i gyflawni'r newidiadau strategol hyn a chefnogi cymunedau trwyddynt.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwastraff Gardd i'w Gompostio

Rhwng 2017/18 a 2019/20, mae 700 tunnell ar gyfartaledd o wastraff gardd wedi cael ei wrthod bob blwyddyn. Pan gaiff llwythi eu gwrthod, mae'n cael effaith negyddol ar berfformiad ailgylchu, a hefyd ar gostau gwasanaeth. Yn 2019/20, fe gostiodd gwastraff gardd halogedig £140,165 i'r awdurdod ar amcangyfrif.

Ar ben hynny, er y gallai 90% o'r deunyddiau a wrthodwyd fod wedi bod yn wastraff gardd o ansawdd da, hyd yn oed os mai dim ond ychydig o drigolion sy'n halogi eu bin gydag eitemau na ellir eu hailgylchu, yn y pen draw maent yn effeithio ar yr holl ddeunyddiau a gasglwyd gan y cerbyd hwnnw ar y diwrnod hwnnw.

Wrth i gasgliadau gwastraff gardd ddigwydd yn fwy rheolaidd yn dilyn pandemig Covid 19, cynhaliwyd rhaglen addysg helaeth i roi cyngor i drigolion ar yr hyn sydd yn gallu mynd i'r bin olwynion gwyrdd (neu sach gwastraff gardd mewn ardaloedd bagiau). Roedd y rhaglen yn llwyddiannus, ac roedd llwythi oedd wedi eu gwrthod yn hanesyddol o rai ardaloedd yn cael eu derbyn. Llwyddodd y rhaglen yn rhannol oherwydd presenoldeb cyson y tîm mewn manau targed, ochr yn ochr â chyflwyno llythyr i bob eiddo yn eu hatgoffa o'r eitemau cywir i'w rhoi yn y bin. Fodd bynnag, mae'n drwm o ran adnoddau a chost ac mae'n annhebygol y bydd yn cael ei gynnal yn y hirdymor.


Mae halogiad yn parhau'n broblem, yn enwedig lle mae trigolion yn cuddio deunyddiau nad ydynt yn targedu o dan wastraff gardd, gan nad yw'r criwiau wedyn yn gallu nodi'r halogiad. Yn aml, nid yw criwiau'n gweld yr halogiad nes bod y bin yn cael ei dynnu i gefn y cerbyd, ac erbyn hynny mae'n rhy hwyr.

Mae'r fethodoleg casglu bresennol yn caniatáu i halogiad 'cudd' ddigwydd. O'r herwydd, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad gwasanaeth llawn o gasgliadau gwastraff gardd y gellir ei gompostio. Bydd hyn yn cynnwys meincodi gydag Awdurdodau Lleol eraill, gan ddadansoddi cyfraddau halogi sy'n gysylltiedig â dulliau casglu amgen i nodi a fyddai newidiadau i seilwaith yn helpu i leihau halogiad.

4.2 Cynyddu Cyfraddau Ailgylchu

Perfformiad Targed Ailgylchu Awdurdodau Lleol Caerdydd ar gyfer 2020/21 oedd tua 58%. Er nad yw wedi'i ddilysu, parhaodd y perfformiad ar 58% ar gyfer 2021/22. Mae'r graff isod yn dangos bod perfformiad wedi parhau'n gymharol sefydlog ers 2016/17, heb gyflawni'r cynnydd mawr mewn perfformiad hyd at 64% .


Ffigur 3: Perfformiad Ailgylchu Caerdydd 2016/17 – 2020/21



Er mwyn adeiladu ar y perfformiad ailgylchu presennol, mae'n bwysig nodi'r ffynonellau gwastraff a gesglir ar draws y ddinas. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwynt ar feysydd allweddol o gyfle.

Ffigur 4: Cyfansoddiad Gwastraff Dinesig Caerdydd (%)

Sources of Municipal Waste (%)



■ Kerbside (Household) ■ HWRC's ■ Trade ■ Cleansing and Enforcement ■ Other

Gwastraff Cartref

Fel y gweler yn Ffigur 4 uchod, mae casgliadau cartrefi wrth ymyl y ffordd yn cynrychioli'r gyfran uchaf o wastraff sy'n cael ei gasglu. Mae'r cyfleoedd i wella yn y maes hwn yn cynnwys:

- gwella ansawdd y deunydd ailgylchu sy'n cael ei gasglu.
- annog cyfranogiad cyhoeddus rheolaidd yn yr holl gynlluniau ailgylchu ymyl y ffordd sydd ar gael, a gwastraff bwyd yn benodol.
- targedu a chipio deunyddiau blaenoriaeth allweddol i'w casglu.

Ar ôl yr hyn a wrthodir, mae Caerdydd yn casglu 100kg/hh/bl o wastraff bwyd, sef y 11^{eg} perfformiad gorau yng Nghymru. Cyfanswm Cymru yw 97kg/hh/bl. Mae potensial i wella, gyda'r awdurdod Cymreig â'r perfformiad uchaf yn casglu 129kg/hh/bl. Be bai Caerdydd yn llwyddo i gyflawni 129kg/hh/bl, byddai'n ychwanegu 2.1 pwynt canran arall at y gyfradd ailgylchu dinesig.

Yn ogystal â gwella perfformiad casgliadau ailgylchu, bydd adolygiad o gasgliadau gwastraff gweddilliol Caerdydd yn cael ei gynnal hefyd. Bydd hyn yn ystyried a yw darparu gwasanaeth bob pythefnos, o 140L fesul cartref, yn briodol o ran cydbwysu'r heriau dinesig penodol sy'n wynebu prifddinas gyda'r angen i wella perfformiad ailgylchu. Yn benodol, mae angen i'r Cyngor annog tynnu mwy o wastraff bwyd allan o'r gwastraff gweddilliol a'i roi yn y cadid ailgylchu bwyd.

Mae gwaith modelu wedi'i wneud ar yr holl opsiynau a amlinellir yn Nhabl 5. Mae casgliadau gwastraff gweddilliol llai aml yn arwain at gynnydd sylweddol mewn cyfraddau ailgylchu, gan amrywio o 3.5-3.7%. Bydd y Cyngor yn cynnal dadansoddiadau pellach i ystyried pa gapasiti sydd ei angen a pha ffyrddiau gwastraff ac ardaloedd i'w targedu.

Mae nifer y fflatiau ledled y ddinas yn her wirioneddol o ran perfformiad ailgylchu. Nid yw fflatiau wedi'u cynnwys yn y modelu a amlinellir, fodd bynnag, mae'n amlwg yn faes o botensial i'w archwilio, ond eto un lle nad oes llawer o ddata ac arweiniad yn bodoli. Mae dadansoddiad o gyfansoddiad y gwastraff o fflatiau wedi dechrau a bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio nifer o dreialon ar gyfer fflatiau. Bydd y treialon yn archwilio sut y gall gwahanol ddulliau casglu a mentrau addysgol gynyddu ansawdd (a swm) y deunyddiau a gesglir i'w hailgylchu. Yn ogystal, bydd pecyn cymorth i gwmnïau rheoli eiddo yn cael ei ddatblygu, er mwyn gweithio mewn partneriaeth i wella cyfleusterau ailgylchu mewn blociau o fflatiau wedi'u targedu. Bydd y pecyn cymorth hwn yn cynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth biniau gyfredol, dyluniad a chynllun storfa biniau, ac arwyddion ac offer cyfathrebu.

Gwastraff Masnach

Mae casgliadau gwastraff masnach yn cynnig cyfle sylweddol i wella'r perfformiad ailgylchu presennol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 40% o'r deunydd sy'n cael ei gasglu yn cael ei ailgylchu. Pe bai gwasanaeth gwastraff masnach y Cyngor yn lleihau ei gasgliadau gweddilliol gan 50%, byddai'n cyflawni cynnydd o 1.8% yn ei berfformiad ailgylchu cyffredinol. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn gallu dargyfeirio deunydd ailgylchu â blaenoriaeth (60% ar amcangyfrif) o'r gwastraff gweddilliol, ac i'r ffyrddiau ailgylchu, gallai arwain at gynnydd posibl o 4.2%.²

Gan weithio gyda phartneriaid, bydd adolygiad masnach llawn yn cael ei gynnal i nodi gwelliannau posibl a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Gwastraff Annomestig fydd yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Rheoliadau Gwastraff Busnes yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff a chasglwyr gwastraff wahanu deunyddiau allweddol â blaenoriaeth i'w hailgylchu.

² *Dadansoddiad Iefel Uchel o Ddata WasteDataFlow - WRAP Cymru*

Fel casglwr masnach dan gcontract i dros 3,000 o fusnesau ledled y ddinas, mae'r Cyngor yn cefnogi gweithredu'r Rheoliadau Gwastraff Annomestig. Yn y cyfamser, bydd treial o gasglu 3 ffrwd wastraff ar wahân gan fusnesau yn cael ei gynnal, yn barod am newid ar draws y ddinas gyfan. Yn ogystal, cysylltir â phob cwsmer sydd wedi'i gcontractio ar hyn o bryd ar gyfer casgliad gwastraff gweddilliol yn unig er mwyn annog ailgylchu a lle nad yw'r trafodaethau hyn yn llwyddiannus, ystyrir atal y contract. Fel rhan o hyn, bydd gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chyflwyno deunyddiau anghywir, drwy fwy o ymyrraeth wedi'i dargedu â chwsmeriaid. Bydd hyn yn cynnwys cynnal adolygiad o'r dulliau prosesu a ddefnyddir ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau bod cymaint o ailgylchu â phosibl yn cael ei gipio. Er enghraifft, didoli deunydd a gasglwyd yn drylwyr o fewn sgiopiau cymysg wedi'u contractio, ochr yn ochr â chael gwared ar sgiopiau cymysg ar achlysuron 'ad hoc'. Yn lle hynny, bydd cwsmeriaid yn cael cynnig yr opsiwn o ddarparu sgiop ar gyfer un ffrwd o ddeunydd.

Mae rhywfaint o waith eisoes wedi dechrau i fwrw ymlaen â'r camau hyn. Wrth i gwsmeriaid ddychwelyd ar ôl y cyfnod clo, cafodd contractau eu hadnewyddu a chafodd cwsmeriaid eu hannog i weithredu trefniadau gwahanu deunyddiau ar gyfer ailgylchu. Mae cwsmeriaid hefyd wedi cael cynnig gwasanaethau ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd, gwydr, papur, cerdyn, metel a phlastig. I gwsmeriaid oedd â chontractau gweddilliol yn unig, roedd hyn yn ofyniad gorfodol er mwyn ailgychwyn casgliadau.

Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, mae nifer y cwsmeriaid sydd â chasgliadau gwydr wedi cynyddu 245%, gyda bwyd 25% a'r casgliadau ailgylchu 10%.

Ers Gorffennaf 2021, mae Gwastraff Masnach wedi rhoi'r gorau i ddarparu sgiopiau gwastraff cymysg i unrhyw gwsmeriaid untro. Mae'r tîm nawr yn gofyn i gwsmeriaid drefnu sgiopiau ar wahân ar gyfer gwahanol ffrydiau gwastraff (megis rwbél, pridd, gwastraff gardd ac ati) y gellir eu dargyfeirio i gyfleuster ailgylchu. Ers y newid hwn mae gwasanaeth sgiopiau Gwastraff Masnach wedi darparu 150 o sgiopiau un ffrwd wastraff i gwsmeriaid untro (o fis Gorffennaf 2021 i Ionawr 2022), ac mae pob un ohonynt wedi'u dargyfeirio i gael eu hailgylchu.

Ysgolion

Roedd 91% o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y strategaeth gwastraff ailgylchu, yn credu ei ennyn diddordeb pobl ifanc i wneud newidiadau hirdymor.

Bydd yr Ymgyrch Sothach Sbwriel yn cael ei hail-lansio er mwyn annog ailgylchu a chompostio mewn ysgolion. Gan gysylltu â'r Ymgyrch Carwch Eich Cartref a'r Gwasanaethau Masnach, bydd y Tîm Strategaeth Gwastraff yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i Ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys sgysiaid mewn ysgolion, adnoddau ar-lein a darparu cymorth ar gyfer cynlluniau tyfu cymunedol. Mae'r ymgyrch wedi ymgysylltu ag 845 o blant ers dychwelyd i ysgolion yn dilyn pandemig Covid 19.

Ochr yn ochr â gweithdai mewn ysgolion, bydd yr ymgyrch hefyd yn cysylltu â phrosiectau partneriaeth drwy Dinasoedd Sy'n Dda i Blant.

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau)

Mae Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y ddinas eisoes yn perfformio ar lefelau uwchben 80%. Er mwyn cynnal y lefel uchel hon o berfformiad, bydd y system archebu bresennol yn cael ei chadw.

Mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad llawn ar arwyddion ac ymddangosiad, yn seiliedig ar argymhellion gan *Adroddiad Asesu WRAP Cymru yn 2021* a nododd fod 'arwyddion sy'n hawdd eu darllen ac yn hawdd eu deall yn annog defnyddwyr y safle i ailgylchu yn hyderus'. I ymestyn hyn ymhellach, mae arwyddion digidol wedi cael eu cyflwyno hefyd mewn CAGCau, sy'n cael eu defnyddio i roi adborth ar berfformiad ailgylchu, a gellir eu defnyddio'n ddeinamig i ymateb i unrhyw faterion ar y safle, adborth preswylwyr ac ati.

Er bod gwaith i nodi safle priodol ar gyfer CAGC yng Ngogledd Caerdydd yn mynd rhagddo, nid oes unrhyw leoliadau addas wedi'u nodi hyd yn hyn, ac ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn y safleoedd presennol yng Nghaerdydd yn uwch na'r galw.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal canolfannau ailgylchu symudol ar draws cymunedau lleol. Bu'r safle yn Nhŷ Glas, er nad yw'n ateb parhaol, yn boblogaidd i ddechrau gyda dros 500 o ymwelwyr. Fodd bynnag, lleihaodd y galw hwn dros amser i ddim ond 184 o ymweliadau fesul digwyddiad. Tra bod y safle wedi creu 135t o ailgylchu, mae'r dadansoddiad yn nodi mai deunydd sy'n cael ei ddargyfeirio o'r safleoedd presennol yw hwn yn hytrach na deunydd ychwanegol. Serch hynny, mae'r galw cychwynnol am y gwasanaeth hwn yn awgrymu bod manteision i gynnal safleoedd dros dro o fewn y Gymuned ac mae cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau a lleoliadau yn y dyfodol yn cael eu harchwilio. Yn benodol, mae cyfleoedd yn cael eu harchwilio ar gyfer safleoedd sy'n caniatáu mynediad diogel i gerddwyr.

Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer y strategaeth ailgylchu a gwastraff hefyd yn nodi bod 77% o'r ymatebwyr yn defnyddio Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Roedd 91% o'r farn bod nifer y slotiau oedd ar gael bob blwyddyn yn ddigonol ar gyfer eu hanghenion a byddai 52% yn hoffi gweld mwy o gyfleoedd i gyfrannu eitemau yn hytrach nag ailgylchu.

Gwastraff Arall

Wrth nesáu at 2025, bydd angen cwestiynu pob cyfraniad at sgil-gynhyrchion gwastraff cyffredinol y ddinas, ni waeth pa mor fach. I gefnogi hyn, bydd prosesau pellach i wahanu deunyddiau ailgylchu yn cael eu cyflwyno trwy dimau glanhau a gorfodi'r Cyngor, gan gynnwys darparu biniau sbwriel ailgylchu un ffrwd, gan archwilio potensial defnyddio mwy o gerbydau â chewyll ar wahân a sicrhau bod gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei wahanu lle bynnag y bo modd.

4.3 Cynyddu cyfleoedd i gymunedau a thrigolion ailgylchu

Er mwyn gwella ein perfformiad ailgylchu, mae angen i ni wneud ailgylchu mor hawdd a hygyrch â phosibl. Nododd arolwg Traciwr Ailgylchu Cenedlaethol WRAP 2020 fod 15% o'r ymatebwyr o'r farn nad yw cynghorau lleol yn casglu digon o bethau i'w hailgylchu. Cafodd hyn ei adlewyrchu yng nghanlyniadau'r ymgynghoriad ar y strategaeth ailgylchu a gwastraff, a nododd y byddai 77% o'r ymatebwyr yn hoffi gweld deunyddiau ychwanegol yn cael eu casglu o ymyl y ffordd, tra hoffai 82% allu ailgylchu eitemau yn eu cymuned leol.

Mewn ymateb, bydd y Cyngor yn ceisio ehangu'r ystod o ddeunyddiau ychwanegol i'w hailgylchu a rhoi mwy o gyfle i wneud hynny. Mae'r enghreifftiau presennol yn cynnwys gwaith gyda Podback i archwilio hyfywedd casgliadau podiau coffi ymyl y ffordd; a dargyfeirio Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugol i'w ailgylchu mewn ffatri arbenigol. Mae cyfleusterau newydd hefyd wedi cael eu cyflwyno i'w gwneud yn haws 'gwneud y peth iawn' mewn perthynas ag ailgylchu eitemau megis eitemau trydanol bach, tecstilau, batris a pheccynnau tetra.

Ar hyn o bryd mae nifer o rwystrau i ailgylchu eitemau o'r fath. Yn gyntaf, yn ystod 2020/21 bu cynnydd sylweddol yn y galw am gasgliadau gwastraff swmpus. Mae hyn wedi arwain at oedi cyn y gellir eu casglu ac wedi arwain at gynnal adolygiad o'r eitemau a gesglir. Gwnaed benderfyniad polisi i ddileu'r opsiwn i gasglu eitemau llai trwy'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus er mwyn lleihau'r galw ar y gwasanaeth a lleihau oedi ar gyfer casglu eitemau swmpus mwy sy'n creu problemau storio gartref. Yn ail, bydd mesurau rheoli, megis y system archebu a gyflwynwyd mewn CAGCau o ganlyniad i COVID-19 yn cael eu hadolygu. Er bod digon o slotiau ar gael, efallai y bydd y system archebu yn atal pobl rhag defnyddio'r safle, gan fod nifer yr ymweliadau wedi'u cyfyngu i 26 y flwyddyn. Yn drydydd, nid yw beiciau'n cael

defnyddio'r canolfannau ailgylchu ar hyn o bryd. Mae hyn yn arfer safonol ar draws y diwydiant, fodd bynnag, mae awydd i alluogi teithio cynaliadwy tra'n ailgylchu.

Fel cam cyntaf i fynd i'r afael â'r uchod, mae'r Cyngor wedi gweithredu cynllun peilot o 4 parth ailgylchu cymunedol, gyda dros 1/2 tunnell o ddeunydd wedi ei gasglu dros gyfnod o rai misoedd yn unig. Yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot hwn, rydym yn gobeithio ehangu'r parthau ailgylchu hyn ar draws Hybiau'r Ddinas. Bydd y lleoliadau hyn yn hygyrch drwy lwybrau trafndiaeth gyhoeddus a beicio lle bo'n bosibl, ac wedi'u hintegreiddio o fewn cymunedau fel y gellid hyd yn oed cerdded i gyflwyno deunyddiau i'w hailgylchu.

Mae capasiti dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref presennol y ddinas yn ddigonol i ddiwallu'r angen ar hyn o bryd. Ond o ystyried y lefelau twf a ragwelir mewn poblogaeth y ddinas yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Caerdydd, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r angen am Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ychwanegol.

Bydd y Cyngor hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal canolfannau ailgylchu/atgyweirio dros dro, i hwyluso aildefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu eitemau fel offer domestig bach, a all fod yn anodd eu gwaredu, ac sy'n niweidiol iawn i'r amgylchedd.

4.4 Defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ddatblygu camau gweithredu wedi'u targedu

Mae Caerdydd wedi nodi ei gweledigaeth i fod yn 'Ddinas Glyfar'. Mae hyn yn golygu defnyddio data i wella'r broses o wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau gwell a hyrwyddo arloesedd. Bydd y dull hwn o weithredu hefyd yn cael ei fabwysiadu ar draws gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu'r Cyngor.

Byddwn hefyd yn gweithio i nodi ffynonellau newydd o ddata, fel rhan o waith y gwasanaethau ailgylchu, y gallwn eu defnyddio yn unol â'r strategaeth data agored. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel ystadegau addysg a chamau gorfodi, yn ogystal â hyrwyddo'r data agored sydd ar gael mewn perthynas ag ailgylchu a chyrchfannau deunyddiau, gan gynnwys *StatsCymru* a gwybodaeth a gyhoeddir o lif data gwastraff ar <https://myrecyclingwales.org.uk/cy>. Bydd hyn yn rhoi hyder yn nryloywder y broses ailgylchu, sydd wedi'i nodi fel cam gweithredu o fewn y thema graidd 'Adeiladu ar ein record ailgylchu' yn strategaeth Mwy Nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru.

Er mwyn gwella cyfranogiad a chipio data, mae'n bwysig deall beth sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Am y rheswm hwn, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda WRAP Cymru i ymgymryd â rhaglen o ddadansoddi cyfansoddiad gwastraff gweddilliol a deunydd ailgylchadwy a gesglir wrth ymyl y ffordd ac o fflatiau. Mae'r canlyniadau'n dangos cyfraddau cipio presennol deunyddiau â blaenoriaeth, ac yn rhoi tystiolaeth glir ar gyfer meysydd ffocws. Er enghraifft, er gwaethaf darparu casgliadau wythnosol am ddim o wastraff bwyd, mae swm rhyfeddol o uchel o hyd o wastraff bwyd yn y ffrwd wastraff gweddilliol yn cael ei gasglu o fflatiau yn ogystal ag aelwydydd (gweler Adran 4.3 ac Atodiad 6).

Yn ogystal, bydd data dangosfwrdd o offer megis Power BI yn cael ei ddefnyddio i fapio'n glir y meysydd sydd angen sylw pellach. Bydd y dangosfwrdd data yn gysylltiedig â meddalwedd casgliadau integredig, i fynd i'r afael â materion megis halogi.

Bydd cyfranogiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd hefyd drwy'r ddinas, yn unol â strategaeth Ailgylchu'n Briodol - Canllaw i newid ymddygiad CLILC. Bydd yr ymarferion monitro cyfranogiad yn nodi preswylwyr nad ydynt yn manteisio ar wasanaethau ailgylchu, gan roi ymyriadau priodol ar waith gyda ffocws ar addysg, a symud ymlaen at gamau gorfodi yn erbyn y rheiny sy'n parhau i beidio ag ailgylchu heb esboniad rhesymol.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda WRAP i gefnogi a hyrwyddo'r ymgyrch 'Bydd Wych. Ailgylcha' genedlaethol. Yn ogystal â'r deunyddiau hyrwyddo, mae'r ymgyrch yn cynnig cyfle i rannu data a nodi dulliau arfer gorau, yn ogystal â helpu i nodi demograffeg darged.

Bydd technolegau presennol hefyd yn cael eu defnyddio i helpu'r Cyngor i weithio'n gallach. Mae dyfeisiau yn y cab eisoes yn cael eu defnyddio i gofnodi biniau a bagiau halogedig. Defnyddir y data hwn yn ei dro i helpu i dargedu trigolion gyda llythyrau sy'n eu cynghori o ba eitemau sydd angen mynd i mewn i ba gynhwysydd. Os bydd trigolion yn parhau i gyflwyno eitemau anghywir, bydd camau pellach yn cael eu cymryd drwy roi addysg yn gyntaf ac yna rhoi camau gorfodi ar waith (gweler Atodiad 2 - Yr Ymgyrch Sticeri Pinc).

Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer contractau ailgylchu deunyddiau fel Gwastraff o Gyfarpar Trydanol ac Electronig a thecstilau, gan sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei gasglu'n 'gweithio'n galetach' ac yn darparu'r cyfraddau adfer gorau posibl. Bydd contractau ailgylchu/gwaredu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod cyfraddau adfer gofynnol yn cael eu bodloni (lle y nodir) ac er mwyn meincodi ag awdurdodau lleol cyfagos i nodi a oes gwell cyfleoedd ar gael.

4.5 Lleihau plastigau untro

Mae dileu plastigau untro yn destun pryder. Ym mis Mawrth 2019, cymeradwyodd Senedd yr UE gyfraith newydd yn gwahardd eitemau plastig untro fel platiau, cyllyll a ffyr, gwellt a ffyn cotwm. Daeth gwaharddiad ar gyflenwi gwellt plastig, ffyn troi diodydd plastig a ffyn cotwm plastig i rym yn Lloegr ddydd Iau 1 Hydref 2020.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar wahardd plastigau defnydd untro rhwng Gorffennaf a Hydref 2020. Os gweithredir y cynigion yng Nghymru, byddai amrywiaeth o eitemau plastig ddefnydd untro cyffredin sy'n anodd eu hailgylchu, fel gwellt, ffyn cotwm, cynwysyddion bwyd a diod polystyren yn cael eu gwahardd, yn amodol ar unrhyw eithriadau.

Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned yn cynnig ystod eang o gamau gweithredu uchelgeisiol a fydd yn dechrau ffurfio sail i gynllun cyflawni i sicrhau dinas Carbon Niwtral. Yn rhan o hyn, mae ymrwymiad i leihau defnydd y Cyngor o Blastigau Untro, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chymhwyso cynllun gweithredu ar gyfer Plastigau Untro. Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer Caerdydd yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Nodi'r holl Blastigau Defnydd Untro a Brynir: Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o brosesau caffael gyda'r bwriad o osgoi plastigau defnydd untro (oni bai bod gofyniad meddygol clir neu ddilys arall) a deall yr effeithiau carbon ar y broses gaffael. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ddarpariaeth o sachau plastig ar gyfer Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych a gwastraff na ellir ei ailgylchu. Yn 2021/22, darparwyd 27 miliwn o sachau plastig untro.
2. Hyrwyddo Aildefnyddio, Ailgylchu Plastigau: Drwy gyfathrebu mewnol ac allanol, bydd y Cyngor yn annog ailgylchu poteli plastig yn ogystal ag aildefnyddio ac atal plastigau defnydd untro drwy hyrwyddo dewisiadau amgen cynaliadwy. Gallai hyn gynnwys cwpanau coffi a photeli dŵr y gellir eu haildefnyddio, yn ogystal ag eitemau aildefnyddiadwy eraill (bagiau siopa, gwellt ac ati). Bydd agenda'r cynllun dychwelyd ernes cenedlaethol yn cael ei chefnogi drwy ymateb o blaid ymgyngoriadau, yn ogystal ag adolygu'r cyfle i osod peiriannu 'gwerthu gwrthdro' o fewn ein cymunedau.
3. Hyrwyddo Ail-lenwi: Mae Caerdydd eisoes yn gweithio gyda chwmni Refill i gefnogi'r cysyniad o osod gorsafoedd ail-lenwi. Mae'r busnesau sy'n cymryd rhan yn arddangos sticeri 'ail-lenwi' yn eu ffenestri i roi gwybod i bobl eu bod yn cynnig dŵr tap am ddim ac nad oes angen teimlo'n anghyfforddus nac annifyr yn gofyn amdano. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan hefyd yn ymddangos ar [ap Refill](#), gan ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'r man ail-lenwi agosaf. Gall y rhai sy'n cofrestru i'r ap ail-lenwi eu poteli dŵr am ddim, a hefyd ennill pwyntiau bob tro y byddan nhw'n ail-lenwi i gael anrheg am ddim. Ar hyn o

bryd mae dros 10,000 o orsafoedd ail-lenwi ar draws y DU. Mae pob un o lyfrgelloedd/hybiau'r Cyngor bellach wedi cofrestru gyda'r cwmni Refill ac mae nifer o'r cadwyni siopau coffi ar y stryd fawr hefyd wedi cofrestru gyda nhw. Lle mae seilwaith y cyfleustodau dŵr yn gydnaws bydd y Cyngor yn ceisio cyllid gyda'r bwriad o osod gorsafoedd ail-lenwi yn hybiau'r ddinas. Byddwn hefyd yn edrych i ehangu'r cynllun ail-lenwi mewn manau cyhoeddus, er enghraifft mewn parciau, canol y ddinas a chanolfannau siopa lleol.

4. Gweithio gyda Phartneriaid: Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno i drefniant partneriaeth gyda Cadwch Gymru'n Daclus a Terracycle i gael gwared ar, casglu ac ailgylchu plastigau o'n dyfrffyrdd ac ardal y bae. Bydd y Cyngor yn ymrwmo i gefnogi, gweithio gyda a hyrwyddo ymgyrchoedd tebyg i leihau effeithiau negyddol plastigau defnydd untro. Bydd menter y Llywodraeth i wahardd cwpanau tafladwy defnydd untro o stadia yn cael ei chefnogi, a byddwn yn bwrw ymlaen â'r syniad o gwpan 'Caerdydd' y gellir ei aildefnyddio yn stadia Caerdydd hefyd. Bydd gwaith yn digwydd hefyd gyda phartneriaid i ganfod datrysiadau rhanbarthol ac i helpu i gefnogi economi gylchol yng Nghymru.
5. Deunyddiau Anodd: Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i ailgylchu deunyddiau anodd fel teiars ceir, cwpanau coffi defnydd untro, matresi, polystyren ac ati. Gellir ailgylchu teiars ceir, carpedi, fframiau ffenestri UPVC, plastigau caled a matresi eisoes yn y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae treial ailgylchu polystyren wedi'i gynnal, ond oherwydd cymhareb cyfaint i bwysau'r deunydd, nid oes dull casglu ailgylchu hyfyw ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd. Er hynny, bydd y cyfle hwn yn cael ei adolygu'n gyson. Mae'r opsiynau ar gyfer ailgylchu podiau coffi mewn partneriaeth â Podback yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i ailgylchu cynnyrch hylendid amsugol fel cewynnau.

4.6 Annog atal, aildefnyddio ac atgyweirio deunyddiau

Byddwn yn datblygu datrysiadau digidol a chlyfar er mwyn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon drwy ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal rhwydwaith 'aildefnyddio' yn ein hadeiladau. Y bwriad fydd annog pobl i aildefnyddio dodrefn ac offer swyddfa. Yn ychwanegol mae'r Cyngor yn bartner rhwydwaith atgyweirio Resource Efficiency Wales i gyfeirio trigolion at opsiynau atgyweirio.

Mae strategaeth Mwy nag Ailgylchu yn nodi *'Er mwyn symud i economi gylchol, carbon isel bydd angen i ni leihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan aelwydydd, busnesau a'r sector cyhoeddus fel bod gwastraff diangen yn cael ei atal, bod cynhyrchion yn cael eu haildefnyddio, a bod atgyweirio ac ail-gynhyrchu yn rhan greiddiol o'n cymdeithas'*

Trwy ymgyrchoedd cyfathrebu cyffredinol a digwyddiadau allgymorth wedi'u targedu bydd y Cyngor yn rhoi cyngor i breswylwyr ar yr hyn y gallant ei wneud i leihau gwastraff yn eu cartrefi. Er enghraifft, defnyddio deunyddiau ymgyrchoedd cenedlaethol fel Caru Bwyd, Casáu Gwastraff i annog pobl i greu llai o wastraff bwyd. Mae siop aildefnyddio yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Ffordd Lamby wedi ei lansio'n ddiweddar hefyd i annog trigolion i roi eitemau sydd â bywyd ynddynt o hyd.

Yn ogystal â hyrwyddo lleihau gwastraff, bydd aildefnyddio eitemau'n cael ei gefnogi. Byddwn yn ymchwilio i fanteision darparu cymhelliant cewynnau defnydd aml dro i drigolion gan ddefnyddio gwybodaeth gan awdurdodau lleol eraill i ddatblygu cynllun cewynnau defnydd aml dro yng Nghaerdydd.

Byddwn yn parhau â'r bartneriaeth â Benthyc Cymru a Chaffi Trwsio Cymru er mwyn cynnal digwyddiadau dros dro ledled y ddinas a chael gwared ar unrhyw rwystrau i fenthycu drwy drosbarthu i gartrefi. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i gynnwys cyfleusterau atgyweirio/aildefnyddio newydd o fewn cynlluniau adfywio cymunedol yn cael eu harchwilio.

Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau fel oergelloedd cymunedol, aiddosbarthu bwyd a chompostio cymunedol sy'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth â Neuadd Llanrhymni a Green Squirrel. Bydd Re-fill Cardiff hefyd yn cael ei gefnogi i ehangu ei gynllun ledled Caerdydd, ac i ddatblygu map 'dim gwastraff' digidol i nodi ardaloedd lle gall trigolion ail-lenwi poteli, manteisio ar fenthyca cymunedol, caffi trwsio a chyfluoedd aiddosbarthu bwyd ar draws y ddinas.

Mae'r Cyngor hefyd yn aros am gyflwyno deddfwriaeth newydd fel Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig a'r Cynllun Dychwelyd Ernes. Er y bydd y cynllun dychwelyd ernes yn gymorth i annog defnyddwyr i ailgylchu eitem, gall arwain at newid cylchol o ran annog pobl nad ydynt efallai am dalu blaendal ar ddeunydd pecynnu i aildefnyddio ac ail-lenwi cynwysyddion.

Bydd cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig yn cymell dylunio pecynnau mewn modd sy'n eu gwneud hi'n haws eu hailgylchu. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau ymhellach faint o ddeunydd 'anodd ei ailgylchu' sydd o fewn ein ffrydiau gwastraff ar hyn o bryd.

4.7 Cyfrannu tuag at ddatblygu economi gylchol yng Nghymru

Er bod Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd gwella ei chyfraddau ailgylchu er mwyn bodloni targedau statudol, mae'n bwysig peidio colli golwg ar amcan cenedlaethol ehangach Cymru'n Un, Cenedl Un Blaned erbyn 2050.

Mae gwella cyfranogiad ac ailgylchu deunydd â blaenoriaeth yn cefnogi'r amcan hwn. Fodd bynnag, bydd Caerdydd yn gweithio i gefnogi'r weledigaeth ehangach drwy fynd ati i flaenoriaethu negeseuon a gweithredoedd ynghylch lleihau gwastraff, aildefnyddio ac atgyweirio, trwy fusnesau, trigolion ac yn gorfforaethol drwy weithgareddau mewnol y Cyngor ei hun.

Mae rhan helaeth o weledigaeth gorfforaethol y Cyngor yn hyn o beth wedi'i amlinellu yn Strategaeth Caerdydd Un Blaned. Mae'r camau gweithredu a amlinellir yn adran 5 wedi'u cysylltu'n gynhenid â'r mwyafrif o'r 6 thema graidd a nodir yn y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu. Bydd y Cyngor yn cymryd nifer o gamau gweithredu pellach, megis parhau â'r bartneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill yn y cyfleusterau Treulio Anaerobig ac Adfer Ynni, yn ogystal â datblygu fferm paneli solar yn Ffordd Lamby.

Fel y nodwyd yn y strategaeth Mwy Nag Ailgylchu *'Ni all y Llywodraeth ar ei phen ei hun sicrhau ein bod yn symud tuag at economi gylchol.'* Deellir bod gweithredoedd unigol yn chwarae rhan fawr yn y cyfnod pontio hwn a bydd y Cyngor yn gweithio i rymuso pawb i wneud newidiadau sy'n gyfleus iddynt, gan werthfawrogi'r budd a ddaw drwy wneud newidiadau bach.

Bydd rôl ein Cydgysylltydd Datblygu Cymunedol yn cael ei ehangu yn unol â menter Caru Cymru, i ymwneud â lleihau gwastraff, aildefnyddio ac atgyweirio. Bydd hyn yn galluogi atal problemau sy'n gysylltiedig ag Ansawdd Amgylcheddol Lleol gwael, gan gynnwys taflu sbwriel a thipio anghyfreithlon.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu'r strategaeth wastraff ac ennyn eu diddordeb. Bydd yr ymgyrch 'Sothach Sbwriel' bresennol yn cael ei hadfywio a'i hailfrandio, i hyrwyddo economi gylchol o fewn ysgolion. Bydd y gwaith yn parhau gyda thimau Dinas Sy'n Dda i Blant y Cyngor wrth wireddu syniadau pobl ifanc, trwy fentrau fel ehangu pwyntiau Terracycle ledled y ddinas a'r murlun cymunedol yn y Ganolfan Ailgylchu a gynlluniwyd gan blant.

Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu deunyddiau sy'n cael eu haildefnyddio mewn pryniannau sector cyhoeddus, drwy ymchwilio i'r gallu i sefydlu rhwydwaith aildefnyddio o fewn ein hadeiladau. Bydd y Cyngor hefyd yn cefnogi'r holl elfennau o ran cyflwyno'r strategaethau atal sbwriel a thipio anghyfreithlon, o fod yn un o bartneriaid allweddol Caru Cymru a sbarduno cydlyniant cymunedol a newid ymddygiadol.

4.8 Cynllun Gweithredu a Dyddiadau Allweddol

Y tri cham gweithredu allweddol y rhagwelir fydd yn cyflawni'r cynnydd mwyaf mewn perfformiad ailgylchu yw:

1. Gwella perfformiad ailgylchu gwasanaeth gwastraff masnachol y Cyngor.
2. Ehangu'r gwasanaeth ailgylchu preswyl i gynnwys ffrydiau gwahanu newydd.
3. Dargyfeirio deunyddiau ailgylchadwy o'r ffrwd wastraff gweddilliol.

Gan y bydd yr uchod yn golygu newidiadau sylweddol, mae'n annhebygol y byddant yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2024-25. Fodd bynnag, bydd sawl cam yn cael ei gymryd cyn y dyddiad hwn er mwyn gwella perfformiad ailgylchu Caerdydd yn raddol, ac i osod y sylfeini ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Bydd y newidiadau yn cael eu gwneud ar ddull gweithredu fesul cam, yn seiliedig ar wybodaeth a data lleol.

Er enghraifft, yn Chwarter 3 2022, byddwn ni'n ehangu'r cynllun casglu ailgylchu ar wahân i ardaloedd eraill. Bydd hyn yn cynnwys darparu sachau y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer casglu deunyddiau ailgylchadwy ar wahân, yn ogystal â cherbyd casglu aml-ffrwd pwrpasol, lle gellir casglu'r holl ddeunydd ar yr un cerbyd casglu. Bydd y manylion o'r casgliadau estynedig yn helpu i lywio'r achos busnes ar gyfer cyflwyno casgliadau ailgylchu ar wahân ledled y ddinas yn 2024-25. Ochr yn ochr â'r treial, byddwn yn parhau i ehangu gwasanaethau ailgylchu trwy hyrwyddo ein gwasanaeth CHA, cyflwyno cyfleusterau ailgylchu podiau coffi, batris ac eitemau trydanol bach a thrwy ehangu cyfleusterau ailgylchu yn y gymuned.

O ran Gwastraff Masnach, rydym eisoes wedi dechrau treialu casgliadau ar wahân gan ddefnyddio cerbyd aml-ffrwd. Ar ben hynny, mae'r Tîm Gwastraff Masnach yn gweithio gyda chwsmeriaid presennol a newydd i annog ailgylchu yn hytrach na gwastraff gweddilliol. O'r herwydd, rydym yn gobeithio gweld rhai gwelliannau sydyn ym mherfformiad ailgylchu gwastraff masnach.

Yn ogystal â'r uchod, mae sawl gwelliant wedi'u gweithredu yn 2021, a fydd yn helpu i wella perfformiad ailgylchu Caerdydd ar unwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ailgylchu gwastraff CHA
- Agor Siop Ailddefnyddio yn Ffordd Lamby
- Gweithio gyda Phartneriaid Corfforaethol i sicrhau bod dodrefn swyddfa yn cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu
- Gwahanu gwastraff glanhau i gynyddu ailgylchu

Ceir crynodeb o'r prif gamau gweithredu yn Atodiad 5.

5. Gweithio gyda Rhanddeiliaid i Wireddu'r Strategaeth

5.1 Cydweithio

Nid yw rheoli gwastraff yn fater i'r Awdurdod Lleol yn unig. Mae'n rhywbeth y mae pob un o drigolion a busnesau Caerdydd yn cyfrannu ato, ac felly mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae i sicrhau bod gwastraff y ddinas yn cael ei reoli mewn ffordd gyfrifol, er ein lles ein hunain ac er lles cenedlaethau i ddod. Mae'r ddinas ar ei gorau pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd. Mae cyfathrebu ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol yn allweddol, yn ogystal â gweithio gydag awdurdodau cyfagos i nodi arferion gorau ac atebion rhanbarthol.

Mae'r Siop Aildefnyddio a agorwyd yn ddiweddar yn CAGC Ffordd Lamby yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni trwy weithio gyda'n gilydd. Mae'r siop wedi'i chyflwyno trwy weithio mewn partneriaeth â Wastesavers er mwyn sefydlu ffordd gyfleus ac ecogyfeillgar i roi cartref newydd i eitemau, yn hytrach na'u gwaredu. Bydd y siop aildefnyddio yn galluogi ailwerthu eitemau cartref a fydd, yn ei dro, o fudd i gyfradd ailgylchu'r ddinas drwy leihau gwastraff. Bydd yn rhoi mynediad at ddodrefn ac eitemau i'r gymuned ar gost isel (gyda budd cymdeithasol cysylltiedig), ac er yn debygol o fod o werth isel, bydd yn cynhyrchu incwm er mwyn ailluddosddi yn y gwasanaeth a'r gymuned.

Mae'r Siop Aildefnyddio yn Ffordd Lamby hefyd yn enghraifft glir o sut y cyflawnir y 5 ffordd o weithio, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ystyried atal yn y hirdymor o ran mynediad at nwyddau fforddiadwy, cydweithio ag awdurdodau lleol eraill ar gyfer meincnodi a defnyddio Waste Savers i gyflawni hyn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo hefyd i 'gynnwys' cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol wrth wneud penderfyniadau. Bydd cyfleoedd i roi adborth ar gael i bawb drwy gydol cyfnod y strategaeth hon. Bydd y Cyngor yn parhau i gynnwys trigolion yn y penderfyniadau allweddol sydd angen eu gwneud ar y daith tuag at 70% ac economi gylchol. Yn dilyn canlyniadau'r arolwg ymgynghori cyhoeddus (Atodiad 7), bydd grwpiau ffocws yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr allweddol o'r gymuned i ystyried sut y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion y 32% oedd yn teimlo bod angen ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd.

5.2 Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae gweithio gyda thrigolion a deall cymunedau'r ddinas yn hanfodol i ddylanwadu ar benderfyniadau gwell, wrth geisio gwella'n gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus.

Mae gwasanaethau Rheoli Gwastraff y Cyngor yn gweithio gyda rhwydwaith cynhwysfawr o wirfoddolwyr angerddol drwy'r Ymgyrch Carwch Eich Cartref. Mae'r gwirfoddolwyr a'r grwpiau cymunedol yn deall anghenion penodol eu cymuned leol ac yn cael effaith sylweddol drwy gynnig cyngor a hyrwyddo gwasanaethau priodol y Cyngor i'w cymdogion.

Mae'r berthynas ag aelodau'r gymuned yn agor deialog gyda'r Cyngor, ac yn rhoi cyfle i nodi angen, mapio adnoddau a chynllunio gwelliannau i'r dyfodol.

Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i gydweithio gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr i annog trigolion i deimlo'n rhan o'u cymuned, ymgysylltu â gweithgarwch cymunedol ac i deimlo eu bod wedi'u grymuso i helpu ei gilydd. Yn benodol, bydd y Cyngor yn ceisio ennyn diddordeb y gymuned leol yn Strategaeth Gwastraff Caerdydd drwy:

- Weithio gyda phartneriaid a'r gymuned i hwyluso'r gwaith o aildefnyddio eitemau a'u hatgyweirio
- Darparu cyfleusterau ailgylchu mewn lleoliadau sy'n haws eu cyrraedd ar gyfer deunyddiau anoddach eu hailgylchu (e.e. cyfleusterau ar gyfer ailgylchu offer domestig bach mewn hybiau lleol)

- Rhoi cyfleoedd i gasglwyr sbwriel cymunedol ddi-doli deunyddiau i'w hailgylchu
- Cynnig gwasanaeth ailgylchu cynhwysfawr i ysgolion er mwyn ailgylchu cymaint â phosibl ac annog ymddygiadau ailgylchu.
- Ymateb i adborth ansoddol, er enghraifft trwy weithredu grwpiau ffocws, olrhain sylwadau ar sgysiau cyfryngau cymdeithasol/cymdogaeth
- Gweithio gydag ysgolion a busnesau lleol i'w grymuso i:
 - hyrwyddo ymddygiadau sy'n cyd-fynd â'r hierarchaeth gwastraff,
 - annog trosglwyddo ymddygiadau o blaid yr amgylchedd o'r cartref i amgylchedd yr ysgol neu'r gweithle

Yn ogystal, ac i gydnabod y ffaith bod dinasyddion Caerdydd yn gwella perfformiad ailgylchu'r ddinas a lleihau eu hól troed carbon, bydd y Cyngor yn ceisio ariannu mentrau 'Carwch eich Cartref' i wella'r amgylchedd lle mae pobl yn byw; boed hynny drwy osod cynhwysyddion plannu blodau a gefnogir yn y gymuned, lonydd chwarae sy'n addas i blant, gwella parciau neu gynnal a chadw mannau nad ydynt yn derbyn llawer o ofal. Y nod yw cael dinas a phlaned y mae pawb yn eu caru.

5.3 Strategaethau Newid Ymddygiad

Mae newid yn dod i'r amlwg yn niwylliant defnyddwyr ac ymwybyddiaeth amgylcheddol gynyddol (*Dogfen Ymgynghori, Cymru Ddi-sbwriel a Di-dipio WG41821.*). Bydd angen i Gaerdydd gwneud y gorau o'r ymwybyddiaeth hon, gan ddefnyddio'r ewyllys da sy'n gyffredin mewn rhai cymunedau.

Bydd y Cyngor felly yn datblygu rhaglenni cyfathrebu, addysg a newid ymddygiadol sy'n gwella'r mesurau sydd eisoes ar waith ymhellach. Er bod lle i ddulliau cyffredinol yn y ddinas, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r holl ddata sydd ar gael i gynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu, yn seiliedig ar ddata dyrannu sy'n nodi'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer yr ardal.

Fel y soniwyd eisoes, byddwn yn cysylltu â phecynnau cymorth ac ymgyrchoedd megis:

- Ailgylchu'n Briodol CLILC
- Ymgyrch y Sticeri Pinc
- Caru Bwyd, Casáu Gwastraff
- Bydd Wych, Ailgylcha

Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi mwy o sylw i ddigwyddiadau lleol, er enghraifft 'Ailgylchu yn y Rhath' i wella buddion cymunedol a bro pan ddaw at reoli gwastraff cynaliadwy.

O ran ailgylchu, y ffocws o hyd fydd addysg a newid ymddygiad, gan gymryd camau gorfodi fel dewis olaf. Ar ôl defnyddio'r holl lwybrau cyfathrebu ac ymgysylltu bydd y Cyngor yn defnyddio'r pwerau dan A46 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gymryd camau gorfodi yn erbyn preswylwyr nad ydynt yn dilyn polisiau ailgylchu. Bydd y Cyngor yn dilyn agwedd dim goddefgarwch tuag at droseddau gwastraff a sbwriel eraill fel tipio anghyfreithlon (Gweler Atodiad 3: Y Strategaeth Addysg a Gorfodi Gwastraff am fanylion pellach).

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â heriau newid ymddygiad mewn fflatiau a llety rhent, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid perthnasol, fel Rhentu Doeth Cymru i geisio cryfhau amodau trwyddedu. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn gweithio gyda chymdeithasau landlordiaid ac asiantaethau gosod tai i helpu i ledaenu negeseuon ailgylchu a seilwaith i grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal ymgyrch newid ymddygiad ynghylch yr argyfwng hinsawdd a bydd ailgylchu yn chwarae rhan allweddol yn hyn, oherwydd ei fod yn faes ystyrlon lle gall pawb gyfrannu.

Bydd pob cynllun cyfathrebu a newid gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni gwerth am arian, a byddwn yn ceisio cydweithio ag awdurdodau cyfagos, a phartneriaid, i fabwysiadu arferion gorau.

6. Monitro, Mesur ac Adolygu

6.1 Mesur ac Adolygu

Bydd Strategaeth Gwastraff Caerdydd yn cael ei hadolygu yn flynyddol, i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu. Bydd costau a chynnydd tuag at gyflawni targedau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu monitro gan y Cabinet a Phwyllgor Craffu'r Amgylchedd. Gan fod hon yn strategaeth aml-flwyddyn, gyda disgwyl newidiadau yn y marchnadoedd deunyddiau, datblygiadau mewn technoleg a datblygiad parhaus Caerdydd ei hun, bydd y Strategaeth Gwastraff yn cael ei hadolygu bob tair blynedd.

6.2 Adolygu, Monitro a Mesur ar ôl Newid Gwasanaethau

Er mwyn deall effaith unrhyw newid gwasanaeth, bydd metrigau allweddol yn cael eu datblygu i fonitro cynnydd. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chipio a'i dadansoddi gan y tîm gwastraff ac ailgylchu ac yn cael ei chyflwyno i'r Aelod Cabinet perthnasol, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Ar gyfer pob newid mawr yn y gwasanaeth, bydd adolygiad hefyd o safonau gwasanaeth (gweler Atodiad 4) i sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn dal i gael eu bodloni tra'n gwella'r perfformiad ailgylchu.

6.3 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae gan y gwasanaeth nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n sylfaen i'r gwaith sy'n cael ei wneud. Bydd y rhain yn parhau i gael eu defnyddio i fonitro perfformiad bob chwarter ac yn flynyddol. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys:

- Canran y gwastraff dinesig a gesglir ac a baratoir i'w aildefnyddio a/neu ailgylchu.
- Canran y gwastraff a gesglir mewn canolfannau ailgylchu sydd wedi'i baratoi i'w aildefnyddio neu ei ailgylchu.
- Nifer y camau addysg a gorfodi fesul mis sy'n ymwneud â gwella ymddygiad ailgylchu gan ddinasyddion.

Atodiadau

Atodiad 1: Dadansoddiad o Fylchau y Strategaeth Gwastraff

Atodiad 2: Ymgyrch y Sticeri Pinc

Atodiad 3: Strategaeth Addysg a Gorfodi Gwastraff 2021

Atodiad 4: Safonau Gwasanaeth 2021

Atodiad 5: Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

Atodiad 6: Adroddiad Dadansoddiad Cyfansoddiadol WRAP 2021